

ATODIAD I:

FFALINGOD Y BEIRDD

Fel ffynhonnell i ddatgelu mwy am ffasiynau'r cyfnod, mae *genre* y canu gofyn a diolch yn hollbwysig. Fe erchir gwisgoedd o bob math, yn cynnwys mentyll, gynau, dwbleidi, sircynau, ac fe ddiolchir hefyd am eitemau fel menig, gwregysau, a pheisiau ac ati. Ond erys un peth cyffredin yn y cywyddau sy'n gofyn am fentyll sef mai mentyll o Iwerddon ydynt, a'r disgrifiadau, gan amlaf, yn cytuno mai mantell a elwir mewn Gwyddeleg yn *fallaing*, sef mantell enfawr o ffris a gwlanen Wyddelig a oedd yn boblogaidd yn Iwerddon yn y cyfnod canoloesol.

Ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi goroesi ym Mhrydain am y *ffaling*, gyda'r cywyddau o Gymru yn cynnig prawf cadarn ac unigryw am fodolaeth y wisg yng Nghymru. Y cyfeiriad cyfoes arall mwyaf gwerthfawr yw hwnnw gan Geoffrey Chaucer yn 'The Canterbury Tales' a ysgrifennwyd o c. 1387. Gwyddys ei fod yn cyfeirio tipyn at ddefnyddiau'r cyfnod wrth ddisgrifio gwisgoedd y pererinion ar eu taith i'r Eglwys Gadeiriol yng Nghaer-gaint. Trafodwyd eisoes bwysigrwydd y cyfeiriadau hyn fel dystiolaeth hanesyddol i ddatblygiad economaidd a diwylliannol brethyn a gwlanen yn Lloegr, ac yn eu mysg, y mae'r hyn a eilw Chaucer yn *falding*, yn y 'Shipman's Tale'. Bu cryn drafod ar darddiad y gair gan Andrew Breeze, a chesglir mai o'r gair Gwyddeleg am fantell *fallaing* (sy'n tarddu o'r gair Lladin Canol *phalinga* 'clogyn garw') y daw'r gair Saesneg *falding*.¹ Yr hyn sy'n nodedig am gyfeiriad Chaucer yw ei fod yn rhagflaenu cyfeiriadau'r beirdd Cymraeg, ac felly'n awgrymu fod y fantell eisoes yn boblogaidd yn Lloegr. Ond mae hynny yn anodd ei

¹ Andrew Breeze, 'An Irish Etymology for Chaucer's *Falding*', *The Chaucer Review*, 35.1 (2000), 112-14.

brofi oherwydd prinder tystiolaeth ar wahân i gyfeiriad Chaucer. A oes cyfeiriad cyn dyddiad cyfansoddi'r Canterbury Tales, felly? Mewn oes lle yr oedd y diwydiant gwlan yn ffynnu yn Iwerddon ac yn hynod gynhyrchiol, ceir cofnodion sy'n profi i'r *ffalingod* hyn gael eu gwerthu yn Lloegr. Yn 1374, cyhoeddwyd fod y gwŷr Seisnig a oedd yn casglu cymorthdaliadau i ganiatáu i Jean de Pabenharn o Coventry werthu 'duderiware' a 'faldyngware' ymysg defnyddiau eraill a oedd yn cael eu gwneud yn Iwerddon. Dywed y cofnod i Pabenharn gael ei wahardd gan y casglwyr trethi rhag gwerthu'r defnyddiau gan nad oeddynt yn cyrraedd y safonau a'r maint cywir.² Ceir cyfeiriad diddorol arall at y *ffaling* yn Lloegr sydd eto'n rhagflaenu dyddiad gwaith Chaucer: Awst yr wythfed 1378. Yn y porthladd yn Llundain y mae'r rheolau'n cael eu newid y tro hwn gan ganiatáu i ŵr o'r enw Tidenman Knyghtyn, marsidiwr o'r Almaen i fynd â dau gant o 'faldyngs' a chan llathen o 'faldyngclothe' o Iwerddon, a brynwyd yn Lloegr, yn ôl gydag ef i'w wlad ei hun.³ Awgryma'r ddau ddigwyddiad fod y rheolau ynglŷn â mewnfurio'r fantell Wyddelig hon yn cael eu llacio.

Yr hyn a gesglir o safbwynt hanes y *ffalingod* Gwyddelig yn Lloegr yw eu bod yn cael eu mewnfurio yn ogystal â'u hallforio i wledydd tramor. Gwyddys bod Cymru yn wlad a oedd yn ddolen gyswllt gref rhwng Iwerddon a Lloegr, gyda llawer o'r porthladdoedd yn agored i longau masnach Gwyddelig. Nid yw'n syndod fod dylanwadau Gwyddelig yn cyrraedd Cymru a rhannau gorllewinol Lloegr ac yn effeithio ar yr unigolion a oedd yn byw yn y taleithiau hynny llawer mwy. Diddorol hefyd yw fod datblygiad y diwydiant gwlan yn Iwerddon yn diodde'r un feirniadaeth â'r diwydiant gwlan yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, a hynny oherwydd nad oedd y gwlan yn cyrraedd yr un safonau o ran maint, llyfnder a graen â gwlan Lloegr. Ond

² Marie Channing Linthicum, "Fadyng" and "Medlee", *Journal of English and Germanic Philology*, 34 (1935), 40.

³ Linthicum, "Faldyng" and "Medlee", t. 40-1.

cawn weld mai un o brif fanteision y *ffaling* oedd ei bod yn drwchus, yn gedenog ac yn llawer mwy cynnes na mentyll cyffredin, ac yn aml yn cael ei disgrifio fel mantell a oedd â'r gallu i wrthsefyll y glaw.

Hawdd yw olrhain y math yma o fantell i gyfnod cynnar iawn yn Iwerddon. Disgrifir nifer o arwyr yn y chwedlau cynnar yn gwisgo'r hyn a elwir yn *léine* a *brat*. Y cyntaf yn cael ei ddisgrifio fel 'crys' neu 'bais' a'r *brat* fel 'clogyn', a honno gan amlaf yn fawr o ran maint ac wedi ei gwneud o wllân.⁴ Mae delweddau o'r gwisgoedd hyn i'w gweld ar nifer o gorffddelwau sy'n dyddio o gyfnod cynnar iawn. Gwyddys fod y wlad yn enwog felly am gynhyrchu brethyn cedenog, neu'r hyn a elwir yn ffris Gwyddeleg, a thebyg yw bod y gwahanol enwau am fantell a wnaethpwyd o'r deunydd gwlanog hwn yn cael eu defnyddio'n mewn gwahanol gyfnodau yn Iwerddon. Un o'r cofnodion archeolegol mwyaf diddorol yn hanes gwisg Wyddeleg yw'r fantell a drysorir bellach yn yr Eglwys Gadeiriol yn St. Sauveur, yn Bruges, Gwlad Belg. Gelwir y fantell yn 'La Manteline de Sainte Brigide d'Irlande' neu fantell Santes Brigid. Yn 1866, fe archwiliwyd y fantell gan yr Almaenwr Prelate Bock, a sylweddolwyd mai mantell ddiweddar a oedd yn gorchuddio'r darn o ddefnydd arbennig iawn ydoedd:

The original relic was discovered inside, and was found to consist of a piece of shaggy cloth, which some sort of lining of blue and green linen which showed signs of wear.⁵

Mae'n debyg fod darn o frethyn bras fel hyn yn eithaf unigryw, er bod tystiolaeth i'r grefft o wehyddu fodoli yn Ewrop o gyfnod cynnar iawn. Yn Iwerddon ei hun, ceir tystiolaeth archeolegol lawer mwy diweddar sy'n cyfoesi â'r cyfeiriadau uchod.

⁴ Lazar-Meyn, H. A., 'Colour Terms in Táin Bó Cúailnge', *Ulidia: Proceedings of the First International Conference on the Ulster Cycle Tales*, ed. J. Mallory and G. Stockman (Belfast, 1994), 203.

⁵ H. F. McClintock, 'The 'Mantle of St. Brigid' Bruges', *Journal of the Royal Antiquaries of Ireland*, 66, t. 32-40.

Darganfuwyd darn o ŵn sy'n dyddio o ddiwedd y bymthegfed ganrif yn Moy, Kifiddan. Deunydd yr ŵn yw gwlanen, gydag arwyneb y deunydd wedi ei ffeltio i'w alluogi i ddal dŵr. Cafwyd hefyd hyd i ddarn o fantell fras, o Drogheda, sydd yn dyddio o'r un cyfnod, sy'n cyd-fynd yn union â disgrifiadau'r beirdd o ddefnydd y *ffaling*. Ceir hefyd luniau gan arlunwyr o'r Oesoedd Canol Diweddar sy'n dangos y Gwyddelod mewn mantell anferth gydag ymylwe o ffris a leinin o ffris, er enghraifft y ffigwr ar ymyl y Map o Iwerddon gan Speede yn 1610, a hefyd gan Derricke yn ei ddarlun a elwir yn 'Image of Ireland' yn 1581 (gw. delwedd 20).

Mae'n debyg, felly, erbyn diwedd yr Oesoedd Canol, i'r *ffaling* arwyddo gwisg Wyddelig draddodiadol. Ond sut y daeth y Cymry i wisgo mantell felly, a hynny mor gynnar â'r bedwaredd ganrif ar ddeg? Y cyfeiriad cyntaf mewn llenyddiaeth Gymraeg yw'r un gan Dafydd ap Gwilym tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg yn y cywydd 'Y Don ar Afon Dyfi'. Disgrifir y don yn 'ffalinglwyd' ac mai'n amlwg mai pwysleisio maint ac ehangder y don a wna Dafydd, wrth iddo ddisgrifio'r don fel mantell i'r 'draethell draw'.⁶ Rhaid aros tan ganol y bymthegfed ganrif i weld y *ffaling* yn ymddangos eto mewn cywydd, ond nid mewn sangiad y tro hwn ond gyda chywydd cyfan yn ei disgrifio.

Yn y cywydd cyntaf a ganwyd i ofyn am *ffaling*, a hynny gan Hywel Swrdwal tua 1468-9, mae'r fasnach ryngwladol rhwng Iwerddon a phorthladdoedd Gorllewin Cymru'n cael llawer iawn o sylw. Gellir tybio mai o borthladd Waterford yn Iwerddon y daeth y llong a oedd yn dod i Gymru'n llawn nwyddau Gwyddelig gan fod y porthladd hwnnw'n nodedig am eu mentyll, hyd nes y gelwid hwy yn

⁶ GDG³, 71.37 a 40.

‘Waterford rugs’ yn y bymthegfed ganrif. Cafwyd ymgais i reoli’r fasnach werthfawr hon yn 1485-6 gan wahardd ‘sheremen, frizers or resellers’ rhag gwerthu ffris a mentyll Gwyddelig i fasnachwyr tramor. Ymgais arall gan y gyfraith, ond y tro hwn yn Nulyn, oedd gwahardd y mentyll yn gyfan gwbl o’r ddinas yn 1466 a hynny, mae’n debyg, i geisio ehangu pŵer a dylanwad y Goron Seisnig yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau. Dengys hyn mor boblogaidd ydoedd y *ffalingod* hyn rhwng 1466 a 1486, a chywydd Hywel Swardwal yn cael ei ganu ynghanol y bri gwyllt am y mentyll hyn. Y porthladd yng Nghymru sydd dan sylw yn y cywydd yw Hwlfordd yn ôl Dr Dylan Foster Evans. Gwyddys fod porthladdoedd yng ngorllewin Cymru’n hynod o brysur yn ystod y cyfnod hwn, gyda nwyddau o Iwerddon yn cael eu mewnforio cyn eu hallforio eto o Gymru i Fryste.

I Fryste y cariai llongau bychain porthladdoedd y De eu pysgod, brethyn, ymenyn a glo. Ynddynt hwy y dygid llawer o nwyddau Iwerddon i farchnadoedd Lloegr hefyd ac erbyn y 15g yr oedd mwy o longau Aberdaugleddau, Cas-gwent, Dinbych y Pysgod, Hwlfordd a Chasnewydd yn atebol i forio o Fryste i Ffrainc, Yr Eidal, a Sbaen.⁷

Gŵr a oedd yn gyfrifol am drethi’r porthladdoedd hyn ydoedd Niclas Ysnel, ac awgrymwyd gan Dylan Foster Evans ei fod yr un gŵr â Nicholas Suel a oedd yn gweithredu fel beili teithiol yn 1476-9 ym mhorthladdoedd Hwlfordd. Os yw hynny’n gywir, byddai’n gwybod yn union beth a oedd yn cael ei fewnforio o Iwerddon i Gymru. Cawn hefyd olwg ar y sefyllfa fregus a oedd yn bodoli ar foroedd a amgylchynai Afon Hafren ac arfordir Cymru o safbwynt môr-ladron. Mae’n debyg fod y ffin rhwng marchnata dilys â môr-ladrad yn denau iawn yn y cyfnod hwn a hawdd oedd i swyddogion fel Niclas Ysnel fynd ati i gymryd mantais o’r holl nwyddau hyn. Dywed y bardd yn y cywydd i Niclas ‘Ymafael â Gwyddel gwyllt’ er mwyn cael y fantell sy’n awgrymu iddo ddwyn y fantell yn gyfrwys heb i neb ei

⁷ Ben Bowen Thomas, *Brashun o Hanes Economaidd Cymru* (Caerdydd, 1941), t. 55.

weld.⁸ Sut y daeth Hywel Swrdwal ar draws y gŵr hwn felly, a pham gofyn iddo ef? Mae'n debyg fod Niclas Ysnel yn dal y swydd fel 'ceidw dramor' yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd dan arweiniad Wiliam Herbert, a chan fod Hywel Swrdwal yn nodedig fel bardd yr Herbertiaid, digon posibl mai dyna sut y daeth i gyswllt â Niclas Ysnel.⁹ Yn wir, yr argraff a geir yw bod Wiliam Herbert wedi dweud wrth Hywel Swrdwal am fynd i ofyn i Niclas Ysnel ddwyn y *ffaling* cyn i'r nwyddau a oedd yn dod i Gymru o Iwerddon gael eu hallforio eto i dde Lloegr a thu hwnt.

Porthladd arall yn Sir Benfro sydd dan sylw yng nghywydd Dafydd Epynt wrth i yntau ofyn am *ffaling*, a'r noddwr yw'r masnachwr Siancyn ap Rhys a oedd yn mewnforio nwyddau o Iwerddon i Ddinbych-y-pysgod. Mae Siancyn yn amlwg yn fasnachwr mawr yn ei ddydd, a phwysleisia Dafydd mor eang yw ei fasnach, yn arbennig ei fasnach o wisgoedd, a'r *ffalingod* o bosibl:

A'th drwsiad aeth drwy Asia.¹⁰

Prin iawn yw'r wybodaeth am y masnachwr hwn, ond mae'n debyg i ddosbarth canol y gymdeithas yn y bymthegfed ganrif gynyddu'n enfawr a swyddi yn y maes masnachol ddod yn fwy cyffredin:

Fel y lleihaodd y fasnach wlân rhwng Lloegr a'r cyfandir datblygodd y diwydiant brethyn yng Nghymru, a gwelwyd Cymry'n lluosogi fel masnachwyr nid yn unig yn eu gwlad eu hunain ond yn nhrefydd Lloegr hefyd.¹¹

Ceir dau gynnig gan Owen Thomas am gefndir y masnachwr hwn a gysylltir â Maelor a Dinbych (y-pysgod mae'n debyg). Tebyg hefyd yw ei fod yn berchen ar longau yn ôl y llinellau 5-6, ac felly'n fasnachwr llwyddiannus iawn:

Ni fenno cwm neu faen cau

⁸ GHS, 12.7-8 a 22.

⁹ Yr oedd Wiliam Herbert ei hun yn dipyn o ŵr masnach rhwng Cymru ac Iwerddon ac yn berchen ar longau masnach. Fe gollwyd un llong o'i eiddo o'r enw Gabriell mewn llongdrylliad ger Iwerddon yn 1465.

¹⁰ GHS, 12.24.

¹¹ Thomas, *Braslun o Hanes Economaidd*, t. 11.

Ar dâl angor dy longau.¹²

Cynnig cyntaf Owen Thomas yw ei fod yn fab i Rys ap Siancyn o Aberpergwn, Glynedd ac yn aelod o deulu pwysig iawn ei nawdd i feirdd. Yr ail gynnig yw ei fod yn dad i Lewys a Rhys ap Siancyn o Lywel, gan fod prawf llawysgrifol yn cysylltu'r ddau:

Cofnodir cywydd gan Huw Cae Llwyd i'r ddau frawd hyn (Lewys a Rhys) yn Pen 55, llawysgrif y cofnododd Dafydd Epynt rai o'i gerddi ef ei hun ynddi (gan gynnwys y cywydd gofyn hwn).¹³

Gwyddys i'r *ffaling* y tro hwn ddod i Ddinbych-y-pysgod o Ddulyn, 'Gwe Wyddelig o Ddulyn', a chyfeirir hefyd at y dudedd fel 'crefft Iddew'.¹⁴ Yr oedd masnachwyr Iddewig yn byw yn Iwerddon ac yn gweithio i'r uchelwyr yn Iwerddon i gyflenwi eu hanghenion masnachol yn y bymthegfed ganrif.¹⁵

Gallwn edrych ar gywyddau eraill gan Dafydd Epynt efallai, i ganfod ei ddi-ddordeb mewn gwisgoedd, a phwysigrwydd eitemau o wisgoedd fel rhoddion iddo. Mae ganddo gywydd gofyn am *wn* gan Risiart Herbert, sy'n pwysleisio ehangder y wisg a'i gallu i'w guddio ef hyd at ei draed. Mae'n debyg fod Dafydd Epynt yn *wr* tal a mawr o ran maint, ac felly'n pwysleisio hynny yn y cywyddau. Yn ei gywydd i William Herbert o Golbrwg, dywed fod ei noddwr yn 'rhoi'r gynau gorau o Gred,'¹⁶ ac mewn awdl foliant i Lewys Hafard a'i wraig Isbel, pwysleisir eu rhoddion o ynau: 'Aeth â'i wenith a'i ynau'.¹⁷ I fardd a oedd yn canu i deulu'r Herbertiaid, ynghanol bwrlwm ffyniant masnachol Sir Benfro, nid yw'n syndod i'r bardd hwn ymhyfrydu yn y gwisgoedd a dderbyniai'n gyson gan ei noddwyr. Ond tybed ai teulu'r Herbertiaid

¹² GDE, 19.5-6.

¹³ GDE, 169.

¹⁴ Gwyddys fod uchelwyr yn teithio o Ddinbych-y-pysgod, e.e. Hywel Dafi yn un o lu o uchelwyr o siroedd y de a gyd-deithiau o Ddinbych-y-pysgod i Santiago.

¹⁵ Louis Hyman, *The Jews of Ireland: from Earliest Times to the year 1910* (Shannon, 1972), 8.

¹⁶ GDE, 9.23.

¹⁷ GDE, 8.8.

eu hunain a fu'n gyfrifol am boblogeiddio'r *ffalingod* hyn yng Nghymru? Gwyddys fod Wiliam (I) Herbert yn ymhél â'r fasnach ryngwladol, gan gynnwys masnach â phorthladdoedd Iwerddon. Gwyddys hefyd iddo golli llong o'i eiddo o'r enw 'Gabriell' mewn llongdrylliad ger Iwerddon yn 1465 a bod honno yn llawn gwin tramor. Yr oedd Wiliam (II) Herbert, Iarll Penfro ac yn ddiweddarach Iarll Huntingdon hefyd yn ymwneud â'r moroedd, meddai Guto'r Glyn am Wiliam (II) 'Aml yw sôn yn ymyl y sir / Am warden cylch y mordir'. Fel teulu hynod ddylanwadol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, digon posibl iddynt ddylanwadu ar yr hyn a oedd hefyd yn cael ei fewnforio i Gymru, yn ogystal â'r hyn a oedd yn boblogaidd gan y Cymry oherwydd eu pŵer dylanwadol a'u diddordeb hwy eu hunain yn y pethau materol.

Cywydd ychydig yn wahanol yw cywydd i ofyn *ffaling* gan Guto'r Glyn. Ni ofynnir am *ffaling* gan fasnachwr na neb sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r moroedd, ond gan wraig o'r enw Elen o'r Llannerch, gwraig Gruffudd ap Llywelyn ap Gruffudd. Mae'n debyg mai Gwyddel yw'r masnachwr y tro hwn, wrth iddo ddwyn llongiad o *ffalingod* amryliw o Iwerddon i Lŷn boed hynny'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Yn y cywyddau sy'n gofyn a diolch am eitemau gan ferched y mae gwahaniaeth amlwg yn y modd y cyferchir y ferch ac mae hynny'n digwydd yn y cywydd hwn. Cyferchir Elen ar ddechrau'r cywydd a'i delweddu'n *len* o aur, a chwaraea'r bardd â'r amwysedd ei bod hi'n *llen* a bod y gerdd yn gerdd ofyn am *llen* trwy'r gerdd wrth ddefnyddio delweddau'r canu i ferched, 'sidan serch', 'cwnsallt o saffrymwallt'. Mae ei chysylltiad â'r llys a'r bywyd materol a oedd yn digwydd yn y plas yn y Llannerch

yn cael ei ganmol gan Guto, ynghyd â'i harfer o bosibl o noddi beirdd, 'Beirddion yw ei meibion maeth',¹⁸ ac i rannu medd:

Elen aur llen o'r Llannerch
A rannai fedd er yn ferch.¹⁹

Cawn wybod hefyd mai rhodd ydoedd y fantell yn ystod gwledd calan, 'Erchi i Elen galennig' ac mai rhyw gyfnewid ydoedd y *ffaling* am gerdd o fawl:

O chaf yn y Llannerch wen
Ffaling, cerdd a gaiff Elen.²⁰

Gan ferch o'r enw Elis Hol y mae Lewys Glyn Cothi yn canu cywydd i ofyn am fantell Wyddelig, ond yn anffodus ni cheir dim sôn am sut y daeth y *ffaling* i ddwylo Elis. Beirdd eraill a ganodd gerddi'n gofyn mantell gyda chysylltiad Gwyddelig yw Bedo Brwynllys o Sir Frycheiniog, Dafydd ab Edmwnd a Ieuan Deulwyn ond ni cheir y gair *ffaling* yng nghynnwys y cerddi hynny. Mae cysylltiad cryf ag Iwerddon ynddynt fodd bynnag, a'r disgrifiadau'n cyfateb i ddisgrifiadau'r cywyddau gofyn *ffaling*.

Mae'r cyfatebiaethau yn y disgrifiadau o'r mentyll hyn yn drawiadol, ac wrth edrych ar lun yr arlunydd enwog o'r Almaen, Dürer, o'r hyn a elwir yn 'Irish Shaggy Mantle', (gw. delwedd 20), y mae darlun y beirdd o'r *ffaling* yn dod yn fyw iawn. I ddechrau, cyfeirir at natur drwchus y gwlan a hynny wrth gyfeirio at wlan o Iwerddon gan Hywel Swrdwal, 'Cnu Gwyddel', yn 'we o wlan' yn ôl Guto'r Glyn, ac yn ymddangos fel 'ffelfed' yn ôl Dafydd Epynt. Cyfeirir gan bob bardd at *ffris* a chredaf mai cyfeiriad at yr ymylwe sy'n ymddangos fel brethyn tewban cyrliog yw'r *ffris* sydd hefyd yn cael ei ddisgrifio fel 'plu'. Mae *ffris* Hywel Swrdwal 'o ros i gyd', mae'n 'ffris hir a pharhaus' yn ôl Dafydd Epynt, ac yn 'we ffris' yn ôl Lewys Glyn

¹⁸ GGI³, 78.30.

¹⁹ GGI², 78.1.

²⁰ GGI², 78.39-40.

Cothi. Mae Dafydd Epynt a Lewys Glyn Cothi yn cyfeirio at y ffwr hwn fel plu, a chan Guto'r Glyn cawn deimlad o'r leinin hefyd, 'lliw dan gnawd llydan o gnu'.²¹

Yng ngoleuni'r beirniadu a oedd ar safonau cnu a gwlan Cymreig a Gwyddelig fel ei gilydd, mae'r beirdd yn gwneud eu gorau glas i fynegi bod y ffris hwn o safon arbennig.²² Un o'u hoff gyfatebiaethau yw cymharu'r cnu â chnu aur Iason; stori hysbys i feirdd y bymthegfed ganrif. Hefyd ceir pwyslais sylweddol ar y gair 'gwe' gan ddwyn i gof y gyfatebiaeth rhwng gweu geiriau, sef barddoni, a gweu cnu'r ddafad. Dywed Dafydd ab Edmwnd fod ei fantell yn 'we lawn o ros glan yrrai' ac mae mantell Ieuan Deulwyn yn we arbennig:

Gwe ar fardd o Gaerfyrddin
Gwedi gwau mewn gwedd a gwin²³

Mae siâp a maint y *ffaling* yn cael ei bwysleisio hefyd, yn arbennig ei thewder gan Hywel Swrdwal a Dafydd Epynt. Mae natur gron y fantell pan agorir hi allan hefyd yn cael sylw wrth i Hywel Swrdwal ei ddisgrifio ei hun fel paun yn arddangos ei adenydd; yn gron fel hwyl yn ôl Lewys Glyn Cothi, ac yn ymddangos fel 'cofl heb wregis'. Mae'n drwm iawn yn ôl Guto'r Glyn – yn 'seithbwys' sydd eto'n awgrym o'i thrwch. Ond ei lliw sy'n derbyn y mwyaf o sylw gan y beirdd wrth iddynt oll gyfeirio at y lliw coch:

Lliw'r dunnell dân, HS
Lliw tân, DE
Clwyd o dân caled o des, LGC
Fflamau aur, LGC
Gwe o dân yn gedenog, LGC
kaer o wlan kwrel y wr DED

Cyfeirir hefyd at liw o *ros*, *ysgarlad*, ac *owls* neu *gwls*, sef term herodrol am y lliw coch a chan un bardd cawn y ddelwedd hyfryd fod 'defni gwaed' ymysg y gwlan.

²¹ Gw. Pennod 1.

²² Yn ei ateb i 'Gywydd Porthomnaeth' Guto'r Glyn, dywed Tudur Penllyn wrtho am wneud 'ffaling gotwm' hynny gan fod y bardd wedi bod yn cwyno iddo golli ei ddefaid tra'n porthmona. Ni fyddai honno hanner mor gynnes â ffaling wlan.

²³ GID, 26.

Mae'r casgliad mai coch yw'r mentyll hyn wedi ei wneud eisoes gan Eurys I. Rowlands, a chytunaf mai dyna'r lliw mwyaf cyffredin i'r *ffalingod* hyn yn Iwerddon hefyd.²⁴ Ond sut yr aethpwyd ati i lifo'r 'gwe Gwyddelig' hwn yn goch yn y lle cyntaf? Yn ôl Mair Jones, mae cywydd Guto'r Glyn i ofyn *ffaling* yn llawn cliwiau am y broses o liwio'r fantell. Mae hon yn fwy lliwgar fel y cyfryw na'r *ffalingod* eraill, er iddo nodi ei bod yn ysgarlad y mae hi hefyd â lliwiau'r enfys ac yn lliwgar fel plu'r ceiliog. Digon posibl fod y cyfeiriadau at 'liw saffrwn' er enghraifft yn gyfeiriad at un o'r planhigion a ddefnyddid i lifo deunydd. Felly hefyd ffrwyth y rhosyn gwyllt 'egroes' a ddefnyddiwyd ar gyfer lliw'n goch. Blodau a phlanhigion eraill a enwir yn y cywydd yw 'dail rhos' a 'chnwd y weirglodd' sydd eto'n egluro'r lliwiau yn y fantell. Mae'n debyg mai ffurf ar 'criafol' yw 'criafon', a dywedir ei fod yr un lliw â chwrw wrth ei ddefnyddio i lifo. Posibl hefyd yw bod y 'cerwyni lliw' yn dybiau arbennig a ddefnyddir yn y broses o lifo deunydd sydd eto'n awgrymu mai at lifo'r fantell y cyfeiria Guto'r Glyn. Wedi hynny, cyfeirir at y broses o bannu sydd o bosibl yn awgrym i'r brethyn gael ei guro a'i wasgu a'i wneud yn bwrpasol i atal dŵr. Mae'r gerdd i ofyn mantell gan Dafydd ap Edmwnd hefyd yn cyfeirio at blanhigion. Mae hi wedi ei gwneud o 'liw cwrel' sef 'coral' – deunydd a oedd yn cael ei ddefnyddio i lifo yn yr Oesoedd Canol, a deunydd neu liw y cyfeiria Lewys Glyn Cothi ato hefyd yn ei gywydd i ofyn mantell. Y mae hefyd yn cyfeirio at lwyn gwinwydd sydd eto'n awgrymu planhigion a ddefnyddiwyd i lifo. Eto er nad enwir *ffaling* o reidrwydd yn y cywydd mae'r disgrifiad yn debyg iawn i'r *ffalingod*. Dywed ei bod yn ei gadw rhag tywydd garw, ac yn llawer lletach na chlog.

²⁴ Eurys I. Rowlands, 'Un o gerddi Hywel Swardwal', YB, 6.

Y deunydd llifo mwyaf cyffredin yn y cyfnod hwn oedd ‘madder’ a phrofir hyn gan eitemau o ddillad sydd wedi goroesi mewn safleoedd archeolegol, gyda 62% yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg wedi eu llifo felly.²⁵ Yr oedd ‘madder’ a’r gallu i amrywio’n fawr o ran lliw, ond y lliw mwyaf cyffredin a gysylltir ag ef yw lliw bricsen goch, cynnes.²⁶

Mae’r lliw hwnnw hefyd yn cael ei nodi yn nelweddau’r beirdd gan eu bod yn defnyddio trosiadau o dân i ddisgrifio’r lliw, sy’n awgrymu mai rhyw goch-orenrog euraid yw’r union liw, ac o’r herwydd yn hynod gynhesol - un o hanfodion mantell ganoloesol. Yn ogystal â’r cyfeiriadau uchod meddai Lewys Glyn Cothi am ei fantell:

Fflaglau nos Wyl Ieuan
Fflamau o aur a phlu mân.

Cyfeiria Lewys Glyn Cothi at ‘dorsed’ yn ei gerdd i ofyn huling gwely, sy’n fenthyciad o’r Saesneg *torchet*, ‘a small torch’ sy’n drosiad gwych i gyfleu natur liwgar yr huling. Y mae *ffaling* Dafydd Epynt yntau yn:

Lliw tân, gwell ytiw no gŵn,
Lliw grub aur Lloegr a garwn;²⁷

Un o rinweddau amlwg y *ffaling* yw ei gallu i wrthsefyll y glaw. Gyda deunyddiau gwlanog a oedd yn parhau i feddu olewau naturiol gwlan y ddafad, yr oedd hi’n bosibl iawn fod y mentyll hyn yn cadw’n weddol sych. Yr oedd modd cynyddu’r gwydnwch wrth bannu, proses gyfarwydd iawn i Gymru erbyn cyfnod llewyrchus y *ffalingod*.

²⁵ Elisabeth Crowfoot, Frances Pritchard and Kay Staniland, *Textiles and Clothing c. 1150-1450* (new ed., London, 2001), ‘By far the most common dye was madder, which was present in 45% of the 1330-40 group and 62% of the late 14th century’, t. 199.

²⁶ Crowfoot *et al.*, *Textiles and Clothing*: ‘Madder is a versatile dye, usually used for a warm brick-red, although it can also produce peach, yellow, violet, brown and tan. It is also used to boost other colours such as greens and blues, and can give a golden tone to the yellow of the weld. In 7 cases the dye had been combined with blue to give purple or black; in three silks it had been combined with a yellow, and in a wool cloth some madder-dyed threads in the selvedge had been overdyed with yellow, to form an orange or brown selvedge stripe in a yellow cloth’. t. 200.

²⁷ GDE, 19.37-8.

Proses arall lwyddiannus i wrthsefyll dŵr oedd rhoddi cwyr ar y deunydd, proses a oedd yn bodoli yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol Diweddar.²⁸

Nid oes rhaid i'r *ffaling* fod yn eitem a ddaeth o Iwerddon yn llythrennol wrth gwrs. Gall fod yn enw am fantell drwchus o liw ysgarlad o unrhyw fan. Digon posibl bod mentyll cyffelyb yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, er y cyfeiriadau at Iwerddon. Un peth a gesglir yw fod hon yn fantell a oedd yn ffasiynol iawn yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a dechrau'r bymthegfed. Wrth ei gwisgo gallai'r beirdd ddangos eu bod wedi cael gafaél ar wisg o safon ac felly'n haeddu canmoliaeth hynod. Eironig mewn ffordd yw fod y Cymry'n dewis y *ffaling* fel eitem felly; boed yn air am fath arbennig o fantell Wyddelig neu'n air am fantell a ymdebygai i fantell felly.

²⁸ DMA, t. 45.

ATODIAD II:

PENWISGOEDD ARGLWYDDESAU AC UCHELWRAGEDD

Trawiadol ac arbrofol yw'r ansoddeiriau mwyaf addas i ddisgrifio ffasiwn penwisgoedd menywod yn yr Oesoedd Canol. Yr oedd y benwisg yn arwydd gweledol o statws ac felly hunaniaeth, ac yn arwyddo gwahaniaeth yn y safonau byw, gwahaniaeth priodasol a gwahaniaeth swyddogaethol. Term cyffredinol ydyw 'penwisg' a olyga yn syml wisg neu orchudd ar gyfer y pen. Gwelir yr enw ym marddoniaeth y cyfnod o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen a hynny at ddefnydd llythrennol a ffigurol. Termau mwy penodol eu swyddogaeth ac yn deillio o destunau cynharach yw *penlliain*, *penguwch*, *cwrsi*, *cwfl* a *chwcwll*. Nid rhywbeth dibwys fu'r benwisg, ac o'r oes gynharaf un bu'r modd yr addurnid y pen yn ddull cyffredin i nodi statws. Cafwyd sawl ystyr i'r gair 'pen' yn yr Oesoedd Canol a chyfeirir yn y Canu Cynnar at y pennaeth neu'r arweinydd fel 'pen' y fyddin neu'r frwydr. Ar y pen y gwisgir coron ac anrhydedd eithaf unrhyw unigolyn yw gwisgo coron. Mae'r gair 'talaith' hefyd â chysylltiad â phenwisg gyda sawl ystyr gan hawlio'r ystyr 'coron', ond hefyd defnyddir y gair am dir, tiriogaeth neu ddarn o wlad. Nid yw'n syndod felly fod penwisgoedd o bob math ag arwyddocâd neu'n arwyddo rhyw ddehongliad neu osodiad am yr un sy'n eu gwisgo.

Yn y cyfnod cynnar, nid o ddewis y gwisgid penwisgoedd. Merched ifainc yn unig oedd â'r hawl i beidio â gwisgo gorchudd am y pen. Yr oedd gwallt rhydd yn cael ei gysylltu â hudwragedd a darlunnir menywod y Beibl oedd â natur ddrwg yn gwisgo eu gwallt yn rhydd megis Efa, Jesabel a Mair Magdalen. Yn ogystal â hyn, anogwyd menywod yr Oesoedd Canol gan ddiwinyddion i guddio eu clustiau. Credai rhai

diwinyddion i Fair feichiogi trwy ei chlust, ac felly trwy guddio'r clustiau gallai merch gadw ei gwryfdod, ond parai hyn ddirgelwch rhyfeddol ac anghyffredin wrth gysylltu'r glust â gweithred rywiol.¹ Mae rhai delweddau o Fair yn arddangos ei phenwisg yn amlwg, er enghraifft yn Llyfr Oriau Llanbeblig, ond hefyd ei gwallt rhydd sy'n arwydd o'i myfyrdod. O safbwynt y gyfraith yn Lloegr tor-cyfraith oedd i berson dynnu het person arall, a byddid yn cyhuddo merch o fod yn butain wrth fwrw ei phenwisg o'i phen i'r llawr.

Yn y Cyfnod Canoloesol Cynnar y benwisg fwyaf cyffredin ym Mhrydain oedd y *couvre-chef*. Term Hen Ffrangeg ydyw a ddaeth i Brydain gyda dyfodiad y Normaniaid. Gorchudd lliain wedi ei glymu am y pen ydoedd y *couvre-chef* a oedd yn cael ei gadw'n dynn â darn o ddefnydd arall neu fand. Datblygiad o'r Saesneg Canol *coverchef* yw'r gair *cwrsi* mewn Cymraeg Canol a'i ystyr Gymraeg yn ôl GPC yw 'Cadach, ffunen, napcyn; lliain a wisgir yn orchudd am y pen, penwisg merch'.² Aeth y *couvre-chef* yn *wimple* wrth i'r benwisg ddatblygu – sef gorchudd nid yn unig am y pen ond hefyd am y gwallt, y gwddf a'r bochau. Gwisgid amrywiaeth o hetiau tros y math hwn o benwisg liain ac arbrofwyd â ffurfiau gwahanol ar y gwallt.

Gwelwyd penwisgoedd yn eu hanterth o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen, ac yn amrywio yn ôl ffasiwn gwahanol wledydd yn Ewrop:

¹ Yr oedd sawl eglurhad rhyfedd, yn drosiadol a chorfforol, i egluro sut y daeth Mair yn feichiog. Mae Iolo Goch yn cynnig i belydr goleuni dreiddio drwy wydr, gw. Lord. t. 153.

² Gw. 'Amoryus and Cleopes', 'The early 12th-century romance of *Piramus et Tisbé* and the *Ovid Moralisé* use the word *guymple*; its English form is *wimple*, used by Chaucer in his version of the story *The Legend of Good Women*. Metham's version of the poem has derived from second and later textual tradition that uses the more fashionable article of clothing, the *kerchyff*.

From the thirteenth century onwards, sculpture, illuminated manuscripts and painting reveal generalised differences which focus on the ornamentation of clothing and headgear.³

Ond anodd crynhoi'n bendant sut yr amrywia'r wisg fenywaidd mewn gwledydd cyfagos, er enghraifft Cymru a Lloegr:

There are too few images, and the information in documents is too cursory to establish details about regional differences in dress and the manner in which women from different villages would express these.⁴

Un o'r ffynonellau niwlog yw ysgrifau Gerallt Gymro o bobl Cymru, ac mae'n disgrifio menywod Cymru â phenwisg neilltuol:

The women, after the manner of the Parthians, cover their heads with a large white veil, folded together in the form of a crown.⁵

Nid oes dwywaith nad ceisio arddangos ei wybodaeth y mae'r croniclydd wrth gymharu'r Cymry â'r Parthiaid, a chan y bodolai'r Parthiaid ganrifoedd yn gynharach, gannoedd o filltiroedd i ffwrdd o Gymru, nid yw cymhariaeth Gerallt rywsut yn taro deuddeg! Mae'r cyfreithiau'n ffynhonnell gynnar a ddeillia o'r un cyfnod ac yn brawf fod cysylltiad rhwng penwisg merch a statws. Daw'r cyfeiriad o 'Gyfraith y Gwragedd' a ddengys fod tri dosbarth o fenywod sef gwraig y brenin, gwraig uchelwr a gwraig daeog. Trafodir hawl gwragedd i roi eu meddiannau i eraill a thra oedd gan wraig y brenin hawl i draean o'r hyn a ddeuai'n eiddo i'r brenin, gallai gwraig uchelwr roi heb ganiatâd:

e mantell a'e chrys a'e hesgydyeu a'e penllyeyn a'e buet a'e dyaut a chraun e chell,⁶

Ond ni châi gwraig y dyn taeog roi dim ond ei *phenguwch*. Ni sonnir am benwisg yn y dyfyniad am wraig y brenin - coron o bosibl fyddai'r unig benwisg addas; cysylltir *penllian* â gwraig uchelwr sef penwisg o liain addurniadol. *Penguwch* yw'r benwisg

³ DMA, t. 92.

⁴ DMA, 95.

⁵ *Giraldus Cambrensis*, t. 494. Un o'r gwledydd a ddaeth dan lywodraeth Alecsandr Fawr, 336-323 C.C. Gŵr y byddai Gerallt yn gyfarwydd iawn ag ef.

⁶ LII, t. 51.

a gysylltir â gwraig o ddosbarth isaf y gymdeithas, ac nid penwisg addurniadol mo'r *penguwch* ond math o fonet neu gap gwaith, rhywbeth y gwelwyd marchogion yn ei wisgo o dan eu helm i gadw'n gynnes. Diddorol yw'r tebygrwydd yng nghyfraith Iwerddon wrth drafod hawliau gwagedd priod. Nid oes hawl gan wraig briod i brynu na gwerthu, ond y mae ganddi hawl i:

tabairt cach mná fo míad *gift of every woman according to rank*⁷

Nid yw'r testun Gwyddelig yn manylu ymhellach ar y mathau o roddion, ond mae'r un rheol yn union yn weithredol yng Nghyfraith Hywel Dda fel y nodwyd uchod. Mae Morfydd Owen yn awgrymu y gall y gosodiad yng Nghyfraith Hywel fod yn estyniad ar y gosodiad Gwyddelig cryno.⁸

O safbwynt llenyddiaeth Ewropeaidd yr oedd yn amlwg fod arwyddocâd pwrpasol a chymdeithasol i'r benwisg. Mae Chaucer yn defnyddio'r term i ddisgrifio gwisg addas ar gyfer y Saboth yn *The Wife of Bath*:

Hir coverchiefs ful fyne weren of ground;
I dorste swere they weyeden ten pound
That on a Sunday weren upon hir heed. (I, llinellau 453-5)

Wrth drafod gwisgoedd y wraig mae Laura Hodges o'r farn fod ei phenwisg gywrain yn arwydd o'i hymddygiad anniwair yn y gymdeithas. Dywed mai gwedd arall ar falchder yw'r benwisg ac wrth ei gwisgo mae'r fenyw yn herio awdurdod ei gŵr. Aiff ymlaen i draethu sut yr edrychid ar benwisgoedd mwy eithafol yn yr Oesoedd Canol:

⁷ Morfydd E. Owen (eds.), *The Welsh Law of Women*, (Cardiff, 1980), t. 19. Ni chawn gyfeiriad yn llenyddiaeth y cyfnod at yr arferion hyn; mae Gwerful Mechain yn ail hanner y bymthegfed ganrif mewn cywydd i 'Wagedd Eiddigeddus' yn cyfeirio at 'ei chell' a'i 'phenwisg' ymysg amryw bethau y byddai merch yn barod i'w haberthu er mwyn cadw dyn: 'Rhoi'i phadell o'i chell a'i chost / A'i thrybedd na'i noeth rybost, / Gwaisg ei ffull rhoi gwisg ei phen / A'i bydoedd na rhoi'r biden', GGM, t.107.

⁸ Owen, *The Welsh Law of Women*, t. 19.

Elaborate head dresses were further castigated through an iconographic equation with quarrelsome nature in church bosses as well as in literature. In this equation a wife demonstrates her pride by challenging her husband as head of the household.⁹

Mae pwysigrwydd y benwisg a wisgai Alisoun hefyd yn nodi ei galwedigaeth fel gwehyddwraig. Cynrychiolir ei rhan yn y diwydiant gwlan a gwehyddu wrth i'r benwisg amlygu gwybodaeth am dechnegau gwehyddu a safonau defnyddiau coeth, a thrwy hyn y mae, yng ngeiriau Laura Hodges, 'serves as her hallmark'.¹⁰ Aiff Hodges ymlaen i grynhoi:

The wife's coverchiefs then, are a highly charged costume sign: they are literally a gesture of submission to her married and legal status...economically the proclamation of a cloth-makers community status and wealth; aesthetically the beautiful veiling of an attractive, seductive woman; and morally the announcement of a woman's pride...and by extension her unchastity, [and] her sexual manipulation.¹¹

Un o'r *genres* ym marddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol lle y rhoddir sylw cyson i benwisgoedd merched o statws yw'r canu serch. Dadleuwyd sut y dylanwadwyd ar lenyddiaeth Cymru yn y cyfnod hwn gan y rhamantau Ewropeaidd ac wrth edrych ar ddyfyniad o'r rhamant Hen Ffrangeg *Roman de Tristan* gwelir sut y mae cyfeirio at benwisg merch wrth ganmol ei harddwch yn gonfensiwn amlwg. Disgrifia'r bardd brydfferthwch Iseut:

Sor ses espales sont si crin,
Bendé a ligne sor or fin.
Un cercle d'or out sor son chief,
Qui empare de chief en chief,
Color rosine, fresche et blanche. (vv. 3824, 3903-11)

(*Her hair fell to her shoulders and was tied in linen ribbons over a fine gold net. She wore on her head a golden band that encircled it entirely, and her face was rosy, fresh and fair.*)¹²

Gallwn gymharu'r disgrifiadau â rhai o ddisgrifiadau arwresau'r chwedlau Cymraeg megis Elen yn y chwedl *Macsén Wledig*, ac Olwen yn *Culhwch ac Olwen*:

⁹ Laura F. Hodges, 'The Wife of Bath's Costumes: Reading the Subtexts', *The Chaucer Review*, 27.4 (1993), 167. Gw. Hope [Phyllis] Weissman, 'The Pardoner's Vernicle, the Wife's Coverchiefs, and Saint Paul', *The Chaucer Review*, 1.2. (1979), 11, am y benwisg yn symbol o oruwchyliaeth y wraig ar statws a safle y gŵr yn y cartref.

¹⁰ Hodges, 'The Wife of Bath's Costumes', 363.

¹¹ Hodges, 'The Wife of Bath's Costumes', 172.

¹² Cyfieithiad gan E. Jane Burns, *Bodytalk [:] When Women Speak in Old French Literature* (Philadelphia, 1993), t. 225.

A'e dyuot hitheu a chamse sidan flamgoch amdanei, a gordtorch rudeur am y mynwgyl y uorwyn, a mererit gwerthfuawr yndi a rud gemmeu. Oed melynach y fenn no blodeu y banadyl...¹³

Cawn ddisgrifiad cynnar o benwisg merch gan un'r Gogynfeirdd olaf un, sef Gruffudd ap Maredudd. Yn ei awdl 'I Wenhwyfar' y mae'n nodi rhai o ddefnyddiau'r benwisg, a gallwn ddychmygu sut y byddai'r wraig hon yn gwisgo'r defnyddiau hynny am ei phen:

Teg o'm pwyll ofeg (ym pall afael—hun)
Oedd wenfun hoywlun hael
A gerais dan frig urael
Ac aur mâl uwch ei gwrn ael.¹⁴

Cyfeiriad at ei phenwisg yw 'brig urael' sef lliain main gwerthfawr sydd am ei phen.¹⁵ Lliain gwyn yw'r un mwyaf tebygol a thybed a oes cysylltiad â'r gair *orol* mewn Hen Ffrangeg, *orol* mewn Hen Saesneg, sef 'a woman's headdress or garment'?¹⁶ Aiff Gruffudd ymlaen i ddisgrifio'r goronbleth euraid a oedd yn amgylchynu'r talcen a'r gwallt. Yr oedd y math hwn o goronbleth yn gyffredin iawn i wraig o statws ac yn sicrhau fod y benwisg a'r gwallt yn cael eu diogelu gan wifren fetel a oedd yn cysylltu'r llen o sidan neu liain main.¹⁷

¹³ CO, t. 34.

¹⁴ GGMD III, 3.21-24.

¹⁵ Mae Ffrancis G. Payne yn dyfynnu'r un dyfyniad o waith Gruffudd ap Maredudd wrth drafod *urael* ac 'asbestos' a daw i'r casgliad: 'The word urael, used above, seems to denote asbestos after it is spun and woven into a garment'. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfeiriad at *urael* yn 'Llyfr yr Ancr', lle y cyfeirir at hosanau ac arfwisg, '...ac aelwir vryael. kannys vr o efrei. tan yw ogymraec...'. Oherwydd hyn, daw Ffrancis G. Payne i'r casgliad mai'r trosiad cywir '...dan frig urael' yw "crested with asbestos" Payne, *A Guide to Samplers and Emroiderers*, t. 11. Nid yw'n amhosibl i'r beirdd fod yn ymwybodol o'r gallu a oedd gan asbestos neu'r lliain gorffenedig a oedd yn tarddu o lin asbestos i wrthsefyll fflamau'r tân, ond ni ddefnyddiwyd llin asbestos i wneud gwisgoedd felly ar gyfer uchelwyr ac uchelwagedd yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Mae John Davies yn y *Dict. Duplex* yn seilio ei ddiffiniad ar y dyfyniad yn rhan 'Pryd y Mab' yn *Ymborth yr Enaid*, ond mae'r tarddiad hwn yn wallus. Dywed Iestyn Daniel yn y nodiadau fod y 'gwres a goleuni tanbaid a oedd ynglyn â gweledigaethau'r Brawd, digon hawdd iddo gredu mai o'r mwyn hwn yr oedd gwisg Iesu wedi ei gwenudd' t. 103

¹⁶ Eunice R. Goddard, *Women's Costume in French Texts of the 11th and 12th centuries*, t. 112.

¹⁷ Geoff Egan and Frances Pritchard, *Dress Accessories 1150-1450* (Woodbridge, 2002), t. 294-5.

Nid oes amheuaeth nad dyrchafu ei statws yw'r rheswm mwyaf pennaf dros y cyfeiriadau hyn at benwisg Gwenhwyfar. Ond wrth i'r canu serch ddod yn fwy poblogaidd yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, y mae'r beirdd yn dewis dyfalu, disgrifio a manylu mwy ar benwisgoedd eu gwrthrychau serch. Am ferched y bedwaredd ganrif ar ddeg dywed Herbert Norris:

Their admiration for beautiful hair, especially of a bright gold colour which was the height of fashion, led them to pay especial attention to its cultivation.¹⁸

Y gerdd gyntaf lle y disgrifir y benwisg yn unig yw'r cywydd 'Penwisg Merch' gan Dafydd ap Gwilym. Y mae gwerth ariannol y benwisg yn amlygu statws y ferch a'r gwaith manwl ar y deunydd o bosibl, y 'caerau main' yn argyhoeddi bod hon yn ferch â'r gallu i brynu penwisg o werth neilltuol:

Rhoi gwerth canpunt ar untal
O gaerau main ac aur mâl.¹⁹

Ond yn y cywydd hefyd cawn awgrym o effaith anghyfforddus y benwisg ar y pen wrth i'r defnydd drudfawr ei wasgu:

Owmal y wlad, leiddiad Lÿr,
Yw penwisg fy nyn poenwyr;
Ac asur ar gyswllt iad
Yn gwasgu combr yw'r gwisgiad.²⁰

Gwelir y thema o gywasgu trwy'r gerdd wrth i'r bardd gyfeirio at 'Fflwch ractal, mau benial boen',²¹ sydd, o dderbyn awgrymiad cyntaf Thomas Parry, yn golygu 'gwasgu pennau ynghyd, terfysg, helynt':

O'r ystyr o wasgu pen gellir hefyd yr ystyr o rwymyn neu wisg am ben, a dyna'n ddiâu sydd yn y testun, mewn cyswllt â 'rhactal'.²²

¹⁸ Norris, *Medieval Costume*, t. 270.

¹⁹ GDG³, 44.5-6, t.119.

²⁰ GDG³, 44.13-16, t.119.

²¹ GDG³, 44.21, t.119.

²² GDG³, t. 480.

Tybed a oes yma awgrym i'r ferch hon ddewis penwisg a oedd yn anymarferol, ac felly, yn anuniongyrchol iddi gael ei beirniadu gan Dafydd?²³ Mae balchder yn thema gyson wrth i'r beirdd ddisgrifio penwisgoedd merched. Gwyddys fod llawer o reolau moesol ynglŷn â'r benwisg, a'i bod yn arwydd gweledol - nid o statws yn unig - ond o hoffter y ferch o ymwisgo'n falch. Trosiad cyffredin yng ngwaith y beirdd ydoedd 'paun' a thrafodir y trosiad mewn cysylltiad â Dafydd ap Gwilym gan Bleddyn Owen Huws yn ei erthygl ar gywydd 'Merched Llanbadarn'.²⁴ Dywed sut y dilornir ymddygiad y paun â'i gysylltiad â balchder ym mhregethau'r Cyfnod Canol. Mae Iolo Goch yn ei gywydd 'I Ferch' yn cyfeirio at benwisg merch a hynny'n gellweirus gan ei galw'n 'beunes aelgoeth':

A wisg, fy nyn weüsgoch,
Penwisg welw, ddyn ddiddelw ddoeth,
Penselgombr, peunes aelgoeth.²⁵

Gallwn yn hawdd felly gysylltu ymddygiad y ferch hon â balchder wrth i'w phenwisg (o bosibl yn ei gwneud yn debyg i baun hefyd) ddod yn drosiad o'i statws a'i balchder yn y statws hwnnw.²⁶ Mae'r awgrym yng nghywydd Dafydd Nanmor hefyd yn cysylltu'r benwisg o bosibl ag aderyn wrth fynegi fod ei phenwisg yn ei galluogi i ehedeg:

Ai iad bun erioed i bu
Wisg i allel asgellu.²⁷

Y mae Bedo Aeddren yn cyfeirio at baun wrth sôn am wallt merch:

Pan ollyngid y did aur
Oll yn rhydd fal llwyn rhyddaur,
Teg edrych tua'i godre,
Pen un wisg â'r paun o'r ne!²⁸

²³ Aiff ymlaen i draethu y gellir 'trosi o'r ystyr rhwymyn i'r ystyr o bennaeth, rheolwr yn bur hawdd'. Daw hyn a ni eto at y cysylltiad rhwng penwisg â statws, a'r gair allweddol 'pen' sy'n symbol o bŵer ac anrhydedd', t. 480.

²⁴ Huws, 'Dros fy mhlu ar draws fy mlwyf', *Dwned* (2004), t. 40.

²⁵ GIG, 24.54-6

²⁶ Prawf nad crefyddes mohoni gan na fyddai crefyddes yn ymddwyn mewn modd mor ynfyd.

²⁷ PWDN, 29.41-2.

²⁸ P.J. Donovan (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982), V.13-16.

Tybed ai cyfeiriad at benwisg merch a geir yn y llinellau hyn o waith Bedo Phylib

Bach?

Mae ar fy rhaiin feinir,
O wisg y paun, ysgub hir,
A'i llun fal y feillionen,
A'i lliw fal peintiad y llen,²⁹

Yn wahanol i'r agweddau gwrth-falchder a gafwyd gan ddiwinyddion yr oes cawn wedd arall ar falchder yma wrth i'r beirdd hyn glodfori balchder a statws eu menywod trwy gyfeirio at eu penwisgoedd a'u gwallt.

Gellir synio yn fras y steiliau a oedd yn boblogaidd wrth edrych ar ddisgrifiadau'r farddoniaeth. Enw ar y lliain gwyn a oedd yn ymddangos fel rhodyn gwyn crwn oedd y *barbette* - a oedd yn mynd o dan yr ên, a'r *filet* a oedd o amgylch y pen (gw. delwedd 24). Mae Llywelyn ab y Moel er enghraifft yn dweud i'w farf dyllu *barbed* ei gariad ac awgryma Mair Jones mai'r gair 'barabette' yw'r trosiad Saesneg sef y rhwymyn lliain a wisgid o dan yr ên a'i binio ar dop y pen.³⁰ Er bod y math yma o steil yn boblogaidd yn gynharach na chyfnod Llywelyn ab y Moel (fel y gwelir ar y ddelw o Siwan), y mae'n ddigon posibl mai'r hyn a fynega Llywelyn yw y byddai'r *barbed* yn gweithredu fel rhwystr gan y gallai'r farf ei niweidio wrth ei chusanu. Y mae'r gair *rhactal* yn ddigon naturiol am benwisg, yn *Breuddwyd Macsen*, ac yn y farddoniaeth. Dywed Dafydd ap Gwilym fod y rhactal 'yn fflwch' sef yn fawr neu'n helaeth. Gwisg pen a oedd yn debyg i'r filet oedd y *rhactal*, neu'r rhan dros y talcen yn unig.

²⁹ P. J. Donovan (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982), XXVIII.27-30.

³⁰ Mair Jones, 'Byd y Beirdd', 69.

Ychydig yn ddiweddarach cawn fwy o gyfeiriadau at yr addurniadau a oedd ar y benwisg gan feirdd megis Dafydd Nanmor yn y bymthegfed ganrif a ddywed fod brodwaith euraid ar y benwisg:

Eurlin, dof i orllwyn dydd,
Yw dy benwisg di beunydd.³¹

Yn yr unfed ganrif ar bymtheg cawn drosiad gwych am benwisg gan Huw ap Dafydd:

Mil liw cyrs ymylau cawg³²

Yn yr un cywydd, disgrifir y gwallt yn llithro i lawr ei chefn yn hynod drawiadol ac mae hyn yn ein helpu i ganfod union steil y benwisg:

Pais tâl yn dwyn pwys talaith
Pwys gwallt a gudd pais a gŵn,
Pwys ymgylch pais Maelgwn;
Tew grys o aur, Tegau'r Sir,
Llathraidd o'r iad y llithir.³³

Trosiad hynod arall am benwisg merch yw'r hyn a gawn gan Bedo Brwynllys sef fod merch yn gwisgo 'bedyddfaen sarff' am ei phen:

Sawr o enau sirionen,
A sarff ffons sy ar ei phen.³⁴

Cysylltir y sarff â themtasiwn Efa ac yn aml cyfeirir at y sarff fel symbol o Satan neu'r Diafol sef y temtiwr.³⁵ A yw'n bosibl fod Bedw Brwynllys yn gyfarwydd â'r pregethau diwinyddol am foesoldeb â phenwisgoedd merched felly wrth ddefnyddio'r trosiad hwn yn chwareus? Uniaethid penwisgoedd â chyrn y diafol i bwysleisio mai gweithred anfoesol oedd eu gwisgo ac fe all, yn hawdd iawn, fod y beirdd yn ymwybodol o hyn.

³¹ PWDN, t. 91.

³² GHD, 23.24.

³³ GHD, 23.36.

³⁴ P. J. Donovan (gol.), *Cywyddau Serch y Tri Bedo* (Caerdydd, 1982), XVI. 7-8.

³⁵ Donovan, *Cywyddau*, t. 380 a 455. Yn y cywydd hwn hefyd cawn o bosibl yr unig gyfeiriad mewn barddoniaeth ganoloesol Gymraeg at y gair Saesneg wimple, yn ll. 28: 'P'le oedd heb wmpwl iddi?'

I sicrhau fod gwirionedd yn yr hyn a ddywed y beirdd rhaid taro golwg ar ddelweddau gweledol y cyfnod canol er mwyn cymharu eu steiliau. O safbwynt y menywod uchelwrol mae corffddelwau'r cyfnod yn rhoi syniad o'r prif nodweddion. Ond wrth drafod y corffddelwau a geir yn Abaty Tewkesbury yn swydd Gaerloyw yn Lloegr (1349-50) mae Carla Tilghman yn cydnabod y problemau a geir wrth geisio dehongli ffasiynau'r oes oddi wrth y corffddelwau:

It is difficult to ascertain exactly when the clothing in question would have been in fashion. For instance, an effigy might be commissioned well prior to a death, or well after a death. Also, a deceased might be pictured in a particular fashion for a variety of reason: tradition, symbolism, or a desire to demonstrate wealth or social standing. An additional problem present itself when looking at brasses; it is necessary to determine which ones might have been custom-made, and which were simply standard workshop types, indistinguishable from one another except for the name of the deceased.³⁶

Mae'r corffddelwau o Gymru yn amlygu penwisgoedd poblogaidd merched uchelwrol y cyfnod canoloesol. Ceir corffddelw sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif o Gwladys, merch Syr Dafydd Gam a mam William Herbert yn dangos penwisg â dau gorn wedi ei orchuddio â deunydd hir.³⁷ O safbwynt portreadau coffaol o bres, y portread cynharaf i oroesi yng Nghymru yw'r un sy'n darlunio Gwenllian Walsche o Landochau'r Bont-faen ym Morgannwg, a fu farw yn 1427. Mae ei phenwisg yn fwy llac a gorchuddiol, ond gyda'r ddau bigyn o boptu'r gwallt yn dal y deunydd.³⁸ Anodd yw darlunio'r union fanylder ar y penwisgoedd drwy gerfluniau o'r fath, ond mae cerfluniau pren yn dangos nid yn unig grefftwaith y cyfnod, ond hefyd y manylion ar wisgoedd. Addurnwyd coed to ficerdy'r Clas-ar-wy, sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif, â ffigur grostég, pen gwraig mewn gwisg gyfoes (gw. delwedd 25). Y mae'r benwisg yn sgwâr ei siâp ac yn cynnwys nifer o groesau bychain.³⁹

³⁶ Carla Tilghman, 'Givanna Cenami's Veil: A Neglected Detail', *Medieval Clothing and Costume*, 1, 2005, 156-60.

³⁷ Lord, t. 258-9.

³⁸ Lord, t. 244.

³⁹ Lord, t. 241.

Yn ogystal â thoeau adeiladau, ceir delweddau ar seddau coed a'r misericordiau adeiladau, a dywed Peter Lord eu bod yn dangos mor soffistigedig oedd cerfwaith coed yng Nghymru.⁴⁰ Cafwyd amrywiaeth o bynciau wrth i'r crefftwyr lunio'r misericordiau hyn, ond yn Eglwys y Santes Fair, Biwmares, ceir cyfres o ugain misericord sy'n dangos patrwm cyffredin, ac fe geir ar bob un ohonynt ben neu benddelw sy'n cynnal angylion adeiniog yn cario tarianau. Meddai Lord:

Ymddengys fod un o'r parau hyn yn portreadu pobl go iawn, gan eu bod yn gwisgo dillad o ddiwedd y bymthegfed ganrif.⁴¹

Ar ei phen caria un wraig ddwy gostrel sydd wedi eu clymu â rhaff, a chluda gwraig arall ysgub o yd. Darganfyddiad hynod a gofnodir mewn erthygl yn y cyfnodolyn *Archæologia Cambrensis* yw'r cerfluniau o bennau ar rannau o gelfi a ddaeth o Lanfaes.⁴² Dywed Charles R. Hand:

Apparently they represent, and perhaps are actual portraits of, the people of the period in and about the Friary, and give examples of the head-gear, hair-dressing, and occupations then prevailing.⁴³

Ymysg y cerfluniau hyn ceir lluniau o fenywod yn gwisgo penwisgoedd syml yn cynrychioli gwahanol swyddogaethau. Ar dudalen 376 ceir delweddau o leian yn gwisgo penwisg a cholera agored i'w gwisg a lleian arall yn gwisgo penwisg hir yn gorchuddio rhan uchaf y corff i gyd. Ceir delweddau o fenywod yn datgelu tair penwisg o'r cyfnod canoloesol sef y twrban a oedd yn boblogaidd trwy'r bymthegfed ganrif; penwisg wedi ei siapio fel cynn a ddaeth yn ffasiynol yn y cyfnod 1415- 1450, a'r penlliaen cyffredin a oedd yn cael ei wisgo gan genhedlaeth hŷn trwy'r bedwaredd ganrif ar ddeg hyd at ddiwedd y bymthegfed ganrif.⁴⁴

⁴⁰ Lord, t. 233.

⁴¹ Lord, t. 233.

⁴² Charles R. Hand, 'The Chancel of Beaumaris Church', AC (1924) 365-382.

⁴³ Hand 'The Chancel of Beaumaris Church', AC (1924) 365-382, 374. Roedd y gangell bresennol wedi ei hadeiladu tua 1575 (ail hanner y 16g), a rhan fwy gwreiddiol y gangell rhyw ddwy ganrif yn gynharach.

⁴⁴ Am fisericordiau yn gyffredinol gw. M. D. Anderson, 'The Iconography of British Misericords' yn G. L. Remnant, *A Catalogue of Misericords in Great Britain* (Oxford, 1998), xxiii-xl. Rhestrir yn y

Nid yw'r delweddau hyn, fodd bynnag, yn gallu arddangos i ni'r mathau o ddefnyddiau a ddefnyddiwyd i wneud y benwisg. Mae Dafydd ap Gwilym ac Iolo Goch yn cyfeirio at *gombr*, deunydd sydd eisoes wedi'i drafod yn y bennod gyntaf. Gwyddys mai lliain oedd y deunydd mwyaf cyffredin, ond yr oedd sawl math o liain i'w gael. Un deunydd a gysylltid yn gyson â phenwisg yw *lawnt* a daeth yn air am 'benwisg' yn ddiweddarach mewn ieithoedd eraill. Benthyciad o'r Saesneg 'laund(e)' a daw'n wreiddiol o Laon yn ngogledd Ffrainc, tref a oedd yn enwog am gynhyrchu lliain. Cyfeiria'r beirdd yn gyson at y deunydd hwn mewn cysylltiad â gwallt neu benwisg merch. Meddai Mathau Brwmfflid:

Duw, ni weles dyn alawnt
Mor wen dan lien o lawnt.⁴⁵

Mae Dafydd Nanmor hefyd yn cyfeirio at y gwallt 'dan lawnt' sy'n awgrymu'r ystyr 'penwisg';

Dyna lwyn tec dan lawnt yw,⁴⁶

Trafodais eisoes y term *urael* fel deunydd am benwisg yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Nifer helaeth o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae *urael* yn cael ei ddefnyddio o hyd mewn cysylltiad â phenwisg, a hynny gan Ieuan ap Llywelyn Fychan yn yr unfed ganrif ar bymtheg:

Cerais dan hug urael⁴⁷

Er bod sidan yn cael ei ddefnyddio'n gyson fel trosiad am wallt merch, nid oes cyfeiriad at benwisg o sidan.⁴⁸ Gall y deunydd lliain ymdebygu i sidan a dichon bod y beirdd yn delweddu hwnnw'n sidan i gyfleu ei fod o ddeunydd rhagorol. Cafwyd nifer o drosiadau eraill am wallt. Mae *gwefr* yn drosiad am wallt o liw ambr: sylwedd

catalog (tt. 201-8) yr holl enghreifftiau sydd wedi goroesi yng Nghymru, gan gynnwys y rhai yng Nghadeirlan Bangor a symudwyd o'u lleoliad gwreiddiol, t. 203.

⁴⁵ GMB, 19.38.

⁴⁶ PWDN, 32.14.

⁴⁷ GILL, 2.1.

⁴⁸ Mae Iestyn Daniel yn awgrymu y gellir darllen 'caer syndal' yn GLl 8,2 fel 'cae'r syndal', 'gyda'r cae efallai'n golygu math o benwisg'. t. 158.

gloyw melynllwyd a oedd yn cael ei ddefnyddio i wneud gleiniau, tlysau, paderau, ynghyd â thlysau i'r gwallt a'r benwisg. Yr oedd ambr hefyd yn enwog am ei allu i hudo a hynny am ei elfen statig neu fagnetig i lynu wrth bethau. Trosiad tra addas felly yn y canu serch. Darganfuwyd llawer o leiniau ambr - rhai anorffenedig gan mwyaf – yn Llundain sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.⁴⁹

Disgrifir gwallt merch o liw copr sydd eto'n amwys gan fod copr hefyd yn cael ei roi ar y gwifrau a amgylchynai'r pen. Yr enw a roddir ar y wifren honno gan y beirdd yw *goldweir*, sef y rhan galed o'r benwisg a oedd yn gymysg â'r gwallt i sicrhau fod y lliain yn cael ei ddal yn y lle cywir. Ceir cyfeiriad at hyn mewn cywydd gan Mathau Brwmfflid:

Gloywder y fro, goldweir frig⁵⁰

Cylchoedd euraid wedi eu gweu i mewn i'r gwallt felly, ac nid oedd angen unrhyw ddarn o ddefnydd bob amser. Yr oedd yn ddigon gan y byddai'r gwallt yn gweithredu fel penwisg. Mae'n debyg bod hyn yn boblogaidd gan ferched ifainc.⁵¹ Yr oedd y wifren hon yn ymddangos yn euraid wrth gwrs, a chyfeiriad arall at hynny yw'r gair *fflwring* a ddefnyddia Dafydd ap Gwilym a Guto'r Glyn yn ddelfrydol am benwisg merch. Darn o aur mâl a fathwyd gyntaf yn Fflorens ydoedd yn wreiddiol.⁵²

Ceir cyfeiriadau at yr arfer o wisgo net neu rwyd am y gwallt sy'n ddigon naturiol gan fod delweddau o'r gwallt mewn eitem felly'n hynod nodweddiadol o steiliau gwalltiau'r oesoedd canol. Y gair a ddefnyddiai'r beirdd yw *moled*, meddai Dafydd

Nanmor:

mewn moled main a melyn

⁴⁹ Egan, *Dress Accessories*, t. 305.

⁵⁰ GMB, 19.10.

⁵¹ Norris, *Medieval Costume*, t. 270.

⁵² GDG³, 191.37 a GGI³, 91.56.

Mae'n un lliw â'r maen yn Llŷn.⁵³

Ac mae Dafydd ab Edmwnd hefyd yn delweddu'r gwallt yn llwyn o sidan a hynny dan y benwisg *foled*:

lliw gobled dan foled fan
llinos ydyw'r llwyn sidan⁵⁴

Yn yr un cywydd, cyfeiria at 'foled wen' sy'n awgrymu y gall hefyd fod o liain gwyn, tebyg i'r *cwrsi*. Mae Mair Jones yn awgrymu'r cysylltiad rhwng moled a molet, gyda'r ystyr o addurno â brethyn i'r ddau.⁵⁵ Cawn grynodedeb o sut yr aethpwyd ati i lunio'r rhwydi hyn yn y llyfr *Dress Accessories*:

The nets were made in the round with a netting needle; a cord was subsequently threaded through the long loops at the crown and fingerloop braid was stitched to the short loops at the lower edge.⁵⁶

Mae'r cynharaf o'r rhain wedi ei ddarganfod yn Llundain ac yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar ddeg, gydag enghreifftiau o'r ddeuddegfed ganrif wedi eu darganfod yn Nulyn. Cyfeiria Dafydd ab Edmwnd at ysnoden, sef rhyw fath o rwymyn i glymu'r gwallt. Yr un ydyw â'r Saesneg 'snood', sef yn ôl OED, 'Netting used in the 13th to cover head. In the 15th and 16th nets decorated with pearls and jewels were worn directly over the hair'.

Cesglir felly fod y penwisgoedd hyn yn rhan annatod o wisg fenywaidd yr oesoedd canol. Wrth iddynt ennyn disgrifiadau'r beirdd mae'n amlwg eu bod o bwys mawr, a pho fwyaf ysblennydd yw'r benwisg, po fwyaf y canmolir y ferch.

⁵³ PWDN, 29.7.

⁵⁴ GDEd, t. 38.

⁵⁵ Mair Jones, 'Byd y Beirdd', 467.

⁵⁶ Egan, *Dress Accessories*, t. 291.

ATODIAD III

Geirfa

Y mae'r dyddiad ar ddiwedd yr esboniad yn dynodi oed y llawysgrifau sy'n cynnwys y dysiolaeth gynharaf, fel a geir yn GPC.

A

abid *eg. b.* hefyd *abit* a *habit*. [bnth. o'r H. Ffr. *habit*, neu'r S. C. *abit* < o'r H. Ffr. *habit*, 'fashion or mode of apparel, dress']. Gwisg neu ddilled; gwisg gradd neu urdd neilltuol (13g).

actwn *eg. ll.* *actynau*. [bnth. o'r S. C. *actoun*, neu'n uniongyrchol o Ffr. Lloeger *aketoun*]. Pais wedi ei chwiltio; siaced a wisgir dan arfwisg; arfwisg (14g).

achen *eb.* [adff. o *echen* ar ddelw'r e. *ach*]. pais arfau (14g).

aelgpiog *a.* [*cael* (ymyl, cwr dilledyn) + *cipiog*]. Cipio ymylwe gwisg, 'snatching fringe of dress' (14g).

aerwy *eg. ll.* *-au, -on*. [o'r Fryth. **ad-reigo*, a chymh. *ere* mewn Llyd., sef 'rhwymyn, cyswllt'. Mewn Gwydd. C., *árach* 'cadwyn' neu 'rhwymyn']. Torch neu gadwyn addurnedig am wddf neu am wallt; addurn neu dlysbeth ar ffurf coler (13g).

- aes** *eb.* ll. *-awr, -or*. Tarian; arf i ryfela o haearn (12g-13g).
- amaerwy** *eg.* ll. *-au, -on*. [< o'r rhgdd. *am + aerwy*]. Modrwy, rhwymyn, neu wregys; ymylwe addurnedig ar ddilledyn ar ffurf cylch.
- amdo** *eg.b.* ll. *-oeau*. [*am + to*]. O'r 13g ymlaen, gwisg am y meirw, neu'n ffigurol am farwolaeth ei hun, cf. H. Wydd. *imthuge*, sef 'gwisg neu orchudd'. O'r e. *amdo* ffurfiwyd y bf. *amdoi* sef amwisgo neu orchuddio (12g-13g).
- amlaw** *eb.* [< *am + llaw*]. Maneg o'r 16g ymlaen.
- amner** [bnth. S. C. *aumener*, *amner* o'r Hen Ffrangeg *aumonière*]. Pwrs.
- archen** *eb.* ll. *-au*. [Llyd., *arc'henn*, ac *acrann* mewn Gwydd. C. sef 'esgid' a 'dillad']. Dillad; esgid (15g).
- archenad** *eg.* ll. *-au*. [cf. â Llyd. C. *archenat*]. Esgid ar gyfer marchogaeth, 'boots' (9g).
- armell** [bnth. o'r Llad. *armella* 'a circular ornament for the arm, bracelet']. Breichled (12g).

- arweddyd** *eb.g.* [arwedd + yd]. Gwisg, ‘apparel’, 1604-7.
- arwest** *eb.* ll. *-au, i.* [arwes < Clt. *ariued-t- ‘yr hyn sy’n clymu’]. Llinyn, tant; gwregys. Rhwybeth i ddal pwysau tros yr ysgwyddau; gwregys i gario arf arbennig, (13g-14g).
- arwisg** *eb.* ll. *-oedd.* [< ar a gwisg]. Dilledyn sy’n gorchuddio rhywbeth: e.e cob, hugan neu fantell; gwisg allanol (16g).
- arwyddarf** *eg.* ll. *-au.* [arwydd + arf]. Arfwisg, ‘coat of arms’, 18g.
- asgell** *eb.* ll. *esgyll.* [bnth. Llad. Diw. *ascella*]. Asgell aderyn, ‘feather, plume, quill’, c. 1400.
- asur** *eg.* a hefyd fel *a.* Lliw glas, ‘azure’; defnydd glas, arfwisg ac arfau glas (14g).
- aur** *eg.* ac weithiau fel *a.* [< Llad. *aurum*]. Darnau o aur; dilledyn gwyh; dilledyn â brodwaith euraid arno (S. ‘cloth of gold’); dilledyn sy’n arwyddo statws marchog; gwallt aurfelyn.
- awchdwn** *a.* [awch (min, ymyl, blaen) + twn]. Ymylwe toredig neu fylchog, ‘broken or notched edge’ (canol y 15g).

awchrym *a.* [*awch* (uchod) + *grym*]. Ymylwe caled, cryf (14g).

B

bacas *eb.* ll. *bacs(i)au*. Hefyd *bagas*, *bacsen*. [bnth. S. C. *bagges*]. Hosan heb y droed; hen hosan i wisgo dros fotasen yn ystod tywydd oer, *c.* 1600; blew ar farch; plu ar gyw iâr, *c.* 1630.

baets *eg.* Hefyd *baedys*. [bnth. S. C. *bage*, ‘badge’]. Arwydd, ‘badge’ i arddangos hawl pleidio mewn herodraeth (canol y 15g).

bagl *eb.* ll. *-au*. [Hen. Wydd. *bachall*, bnth. Llad. *baculus*]. Ffon swyddogol abad, esgob neu archesgob (11g).

balaen *balain*, *balen*. [amrywiad ar Malaen, Malen, Milan, enwog am ddur]. Dur, arfau dur, bwcler, *c.* 1400.

balawg *eb.* ll. *-au*, *-ion*. Amrywiad: *balog*. [bnth. S. C. *ballock*]. Tafod gwaeg neu bin ar gyfer gwregys, bwcler neu glespyn (14g); balog ar drowsus, fflap ar drowsus pen-glin, ‘cod-piece’, fflap ar boced, agoriad yn rhan uchaf swrcod neu bais (15g).

balchddawn *eg.* / *a.* [balch + dawn]. Rhodd cain neu rinweddol (14g).

- balleg** *eb.* [? o'r gwr. *bhel- 'chwyddo']. Basged, 'hamper'; net; pwrs, (14g).
- ballog** *a.* [Gwydd. *ballach* 'brych']. Brych, 'speckled' (13g).
- banadl** hefyd *banal*, yn ffigurol am wallt euraid merch.
- barrog** *eg.* [*bar(r)* + *og* 'olwyn neu declyn pigog']. Ysbardun, 'spur', 1606-7.
- bedw** *ell.* neu *et.* [hefyd ll. *bedwenni*]. Coed bedw unigol neu luosog; arwydd o serch (12g-13g).
- bele** *eg.* Amrywiad: *belau, bela, bala*. [Clt. *bheleuo-]. Creadur tebyg i'r wenci oedd yn berchen ar ffwr gwerthfawr a ddefnyddid i addurno gwisgoedd brenhinol (13g).
- beril** *eg.* Amrywiad: *beryl* [< S. C. *beryl*]. Maen gwerthfawr tryloyw, gan almaf o liw goleuwyrdd; rhywogaeth fewnol o'r maen (14g).
- biswn** *eg.* Lliain cain, 'byssus' (14g).
- blac-y-lir** *eg.* Daw o'r ymadrodd S. 'black of lyre', brethyn du a weithid yn nhref Lyre/Liere ym Mrabant (15g).
- blattys** *e.ll.* [bnth. o'r S. C. *blade, bladde*]. Arfwisg, rhyfelwisg; arfau, llafnau (14g).

- bliant** *eg.* [bnth. o'r S. C. *bliant* 'bleant' < adff. o'r H. Ffr *bliant*, -aud, *bliat* y gwelir ei debyg hefyd mewn ieithoedd Romáwns eraill].
Defnydd main drudfawr yn unig yn y Gymraeg (lliain main drudfawr), ond defnydd a gwisg yn Saesneg (13g).
- bombas** *eg.* [bnth o'r S. *bonbace*]. Cotwm (dechrau'r 17g).
- bonet** *eb.g.* ll -i. [< S. 'bonnet']. Cap bychan i ferched, ymddangosiad cyntaf yn y 15g.
- bonllawdr** *eg.* [*bôn + llawdr*]. Trowsus tynn neu hosanau uchel, 'breeches' (14g).
- botas** *ell.* (unigol *b. botasen, botysen*), ll. dwbl -au. [ymddengys ei fod yn fnth. o'r S. C. *botes* sef 'boots']. Gorchudd ar gyfer y goes; esgid uchel a oedd yn cyrraedd hyd y pen-glin (14g).
- botwm** *eg.* ll. *botymau, botynau*. [bnth. o'r S. C. *botone, bothum* 'button' < H. Ffr. *bouton*]. Darn crwn o gorn neu fetel a wniir wrth ddilledyn i'w gau trwy gyfrwng twll neu fotwm; rhywbeth diwerth (14g).
- brat** *eg.* ll. -(i)au. [bnth. o'r H. Wydd. *brat* sef 'mantell, clogyn', a *bratog* 'cerpyn' sy'n gytras â *breth* yn 'brethyn', cf. â Gael. *brat* 'haircloth for a kiln, apron; covering, mantle, veil']. Clogyn neu fantell oedd ei ystyr gynnar a daeth yn ddiweddarach i olygu ffedog (13g).

- breichdlws** *eg. ll. –au.* [*< braich + tlws*]. Breichled neu addurn ar gyfer y fraich. Fe ddisodlwyd yr e. gan ‘breichled’, cyfaddasiad o’r S. *bracelet* [bnth. o’r Ffr.C., o ffurf fachigol yr e. H. Ffr. *bracel*] yn y 16g.
- breichrwy** *eg.b. ll. –au.* [*< breich + rhwy(f)* fel yn *aerwy*, *cyfrwy* a *modrwy*]. Addurn a oedd yn cael ei wisgo gan uchelwyr a hynny gan y ddwy ryw (13g).
- brenhinwisg** *eb. ll. breninwisgoedd.* [*< brenin + gwisg*]. Mantell a dillad brenhinol neu arwyddion brenhinol.
- brethyn** *eg. ll. –nau.* [*< o’r un elf. ag a welir yn brat yn ôl GPC (320), ond cf. â brith*]. Darn o ddefnydd wedi ei wneud neu ei weithio (naill ai o gotwm neu sidan, ond o wlân gan amlaf).
- brethynwisg** *eb.* [*< brethyn + gwisg*]. Dillad gwlanog (14g).
- brith** [*brith* neu *breithes* mewn H.Gym. a *briz* mewn Llyd. sef ‘ysmotiog, staeniedig’]. Defnydd cymysgliw, brych, amryliw (9g).
- brithlen** *eb.* [*< brith + llen*]. Croglen o ddefnydd drudfawr a brodwaith lliwiedig arno (dechrau’r 17g).

- brithwe** *eb.* ll *-oedd.* Wedi ei staenio â gwaed (13g); gwead tartan (15g).
- bronddor** *eb.* [*< bron + dôr*]. Gorchudd amddiffynnol ar y fynwes neu arfogaeth i'r fron; llurig; tarian (12g).
- brycan** *eb.g.* ll *-au.* Hefyd 'brecan'. [bnth. o'r H. Wydd. *breccán* 'brethyn brith' a ddaeth yn y 18g i olygu 'a length of flannel of various colours, which is their cloak by day, their bedcloth by night, and their shroud in the grave'(WLW, 19)]. Gorchudd wedi ei wneud o wllân: carthen, gwrthban, blanced, cwrlid neu hugan (13g).
- bwcran** *eg.* [bnth. o'r S. C. *buckram* a all fod yn fnth. o'r H. Ffr. Fe'i ceir yn y rhan fwyaf o ieithoedd Ewropeaidd rhwng y 12g a'r 15g, cf. â'r H. Ff *boquerant*, Ff. D *bougran*. Ond meddai OED: 'as the Eng. forms generally have *m*, while all the Fr forms have *n*, it is possible that the word may have been adopted into Eng. not from Fr. but from Italian'.] Sidan, lliain neu gotwm tenau (14g).
- bwcl** *eg.* [bnth. o'r S. *buckle*.] Cylch o fetel gyda gwaell, tafod neu bin i gau'r cylch a'i wthio drwy ddarn o ddeunydd, e.e. lledr (14g).
- bwyled** *eg. b.* [bnth. o'r S. *buckler*.] Tarian gron (15g).

bwmbas *eg.* Hefyd *bwmbast*, *bwm-bast* [bnth. S. *bombasine*] Gwlân cotwm ar gyfer leinio dillad (17g).

bwmbbras *eb.* [bnth. S. C. *vambrace* ‘defensive armour for the fore-arm’].
Arfwisg i amddiffyn yr elin (15g).

C

cadach *eg.* ll. *-au*, *cedych*. [bnth. Gwydd. *cadach*, Llad. *calico*]. Darn o ddernyn neu ddilledyn diwerth; hefyd yn ffigurol am rywun di-asgwrn-cefn (14g).

cadas *eg.* ll. *-au*. [bnth. o’r S. *cadas*, *caddive* < H. Ff *cadaz*, *cadaz*, cf. Gwydd. *cadaz* = *cadan*, cotton, ‘cotton wool’ neu ‘worsted yarn’].
Defnydd gwerthfawr naill ai o edafedd o gotwm neu sidan, o bosibl â gwaith brocêd arno (14g)

cadwyn *eb.* ll. *-au*, *-i*, *-awr*. [bnth. o’r Llad. *catēna*]. Cododd y ffurf *cadwen* yn niwedd y 16g. Nifer o ddolennau neu fodrwyau, o fetel fel rheol, wedi eu cysylltu y naill drwy’r llall i ffurfio llinyn cryf (13g).

cae *eg.* ll. *-au*, *-oedd*. [*ke* mewn Cer. sef ‘gwrych, clawdd, cae’]. Addurn, bwcl neu dlws; gwregys; coron addurnedig (13g - 14g).

- caead** *eg.* ll. *-au*. Yr ystyr gyntaf oedd mantell, llen neu orchudd (13g); bwcl a oedd yn cau rhywbeth fel esgidiau (14g).
- caen** *eg.* ll. *-au*. Yn gyntaf gorchudd neu duded (13g); yna arfwisg (14g).
- caened** *eg.* a hefyd fel *a.*[bnth. S. *kennet* ‘grey (cloth)’] Gwisg; gorchudd; brethyn llwyd (15g).
- caerog/awg** *a.* a hefyd fel *eg.* [*< caer + og*]. Defnydd wedi ei weu yn batrwm sy’n debyg i furiau caer; brocêd (13g).
- calchdöed** *eg.* a hefyd fel *a.* [*< calch < bnth. Llad. calc-em + töed*]. Gorchudd amddiffynnol neu arfwisg (13g).
- camlod/ad** *eg.* [bnth. S. C. *cham(e)lot, camlet*, ‘camlot’]. Defnydd ysgafn o wllân, sidan a blew at wneud mentyll, yn wreiddiol defnydd drudfawr gwych o’r dwyrain (14g).
- camse** *eg.* [bnth. o’r H. Wydd. *caimmse*, o’r Llad. D. *camisia* ‘dilledyn isaf, crys’, cf. â’r gair mewn Llyd. C. *camps* sy’n golygu ‘gwisg offeiriad’]. Gwisg, mantell neu wllân, â chysylltiad a gwisg isaf, e.e. pais neu wisg o dan fantell neu wllân (13g).
- capan** *eg.* ll. *-au* [bnth. o’r H.S. *cappa(u)* ‘cope’ ‘a cloak forming part of a religious habit’]. Mantell neu fantell â chwfl iddi (13g); penwisg llac

am y pen, tebyg i'r 'hood' (15g).

- capus** e.g. [bnth. o'r S. *capuche* 'the hood of a cloak' o'r Ffr. *capuce*].
Penwisg sy'n rhan o wisg gŵr eglwysig, e.e Deon (15g).
- carddagl** Hefyd yr amrywiad *carfagl*. [bnth. o'r S. *dag* 'edge of garment'].
Godre neu ymyl dillad (17g).
- carp** Hefyd *cerpyn*. [cf. â'r gair Gwydd. *cearb* 'cadach, mecsyn']. Darn o gadach, bretyn neu ddilledyn carpiog. Defnyddid y gair hefyd yn ffigurol am rywun tlodaidd (14g).
- carrai** *eb.* ll. *careiau, -on, -ydd*. [bnth. o'r Llad. *corrigia*]. Darn main o ledr neu o groen anifail a ddefnyddir i gau esgidiau (10g).
- carthen** *eb.* ll. *-ni, -nau*. [< *carth + en*]. Gorchudd gwlanog trwchus, brethyn lliwgar, cwrlid (13g).
- casmai** *eg.* [Amrywiad ar *camse* gyda thrawsosod]. Alb, clogyn offeiriad, o bosibl yn addurniadol iawn. Gwisg wen laes offeiriad cyn i'r term 'alb' ddod i rym (14g).
- casul** *eg.b.* lluosog *-(i)au*. [bnth. o'r Llad. *casula* < *cadsula*, cf. Llyd. *kasul*, H. Wydd. *casal*]. Gwisg lac ddilewys a wisgir gan esgob ar gyfer yr

Offeren, a hynny dros yr alb; mantell neu glog (13g)

- ceden** *eb.* ll. *-og*. [cf. Gwydd *catán* ‘nap of shagged cloth’]. Rhywbeth blewog, e.e. brethyn cedennog (14g).
- cin** *eg.* ll. *-iau, -ion, cinnau*. Carp, cerpyn, clwt o frethyn, cadach budur (14g).
- cinionen** *eb.* [*< cin* (uchod)]. Gorchudd o frethyn bras, carthen, nithlen (16g).
- clos** *eg.* [bnth. o’r S. *close*, amrywiad ar ‘clothes’]. Hefyd *closyn*. Trowsus, S. ‘breeches’, cf. *clos hosanau*, ‘breeches’ (14g-15g).
- cob** *eg.b.* ll. *-au*. [bnth. o’r S. C. *cope* o’r Llad. *cāpa* o bosibl]. Gŵn hirllaes ddilewys a wisgir gan glerigwyr; mantell neu glogyn a wisgir ar gyfer mynd allan.
- cochl** *eg.b.* ll. *-au*. [bnth. o’r H. Wydd. *cochull* sef ‘mantell’ neu ‘glogyn’, < Lladin *cucullus* ‘mantell’]. Hugan neu ŵn hirllaes, weithiau’n ffigurol am orchudd.
- coesarn** *eg.* ll. *-au*. [*< coes* â’r un trf. ag a welir yn *canhwyllarn* o bosibl (mae GPC yn ansicr o hynny)]. Gwisg am ran isaf y goes i’w hamddiffyn; esgid uchel, ‘boot’.

- cornyn** *eg.* ll. *-nau*. ‘an infant swaddling-clothes...term of endearment for a baby’.
- coffr** *eg.* b. ll. *coffrau*. [bnth. S. *coffer*]. Cist lle y cedwir trysorau, blwch eiddo (14g).
- coler** *eb.* [bnth. S. C. *coler* ‘coller’]. Rhywbeth addurniadol am y gwddf, cadwyn addurniadol (14g).
- combr** *eg.* [bnth. o ff. ar y Ffr. *cambrai* ‘cambrig’]. Lliain main drudfawr, gwyn o bosibl, tebyg i’r *bliant*. Daw o enw tref Cambrai yng ngogledd Ffrainc a oedd yn enwog am ei deunyddiau gwerthfawr.
- cordwal** *eg.* [bnth. o’r S. C *cordwain* < H. Sb. *cordovan*]. Ans. o enw tref Cordoba yn Sbaen a oedd yn enwog fel tref ddiwydiannol a oedd yn cynhyrchu ledr. Ans. felly a oedd yn golygu rhywbeth o ledr drudfawr (13g).
- coron** *eb.* ll. *-au*, *coronau*, a hefyd fel ansoddair. [bnth. o’r S. C. *corone* ‘crown’ < adff. o’r Llad. *corona*]. Penwisg addurniadol o aur neu arian, ac arni emwaith. Gwisgid fel arfer ar achlysuron seremonïol gan frenhinoedd, breninesau ac ymerawdwyr fel arwydd o awdurdod; penwisg esgob (13g).

- corporal** *eg.* [bnth. o'r H. Ffr. *corporal* o'r Llad. Diw. *corporalis* (palla)]. Lliain main y rhoddir elfennau'r cymun arno i'w cysegru yn ystod yr Offeren (14g).
- corsed** *eb.* ll. *-au.* [bnth. S.C. *corset* neu H.Ffr. *corset*; y ffurf *corsied* o bosibl dan ddylanwad *gorsied*] Gwisg yn ffitio'n dynn am y corff yn enw; math o arfwisg neu lurig gynt, ond yn ddiweddarach *staes* a wisgir gan ferched.
- cotarmur** *eb.* ll. *-s.* Hefyd *cotarmer, cotarmur, codarmur* [bnth. S. *coat-armour, S. C. armure*]. Arfwisg pais arfau a ddengys arwyddion herodrol (14g).
- cotwm** *eg.* ll. *cotymau.* Hefyd *cotwn, cwtwm, cwtwn.* [bnth. S. *cotton, a'r -n* yn *cotwn, cwtwn* wedi troi'n *-m* fel yn *rheswm*]. Yr edau a nyddir o sylwedd arbennig sy'n deillio o blanhigyn 'Gossypium' a dyfir yn America, Asia ac Affrica (canol y 15g).
- cowyll** *eg.* ll. *-au, -ion.* Gwisg, tudded neu orchudd; penwisg (12g).
- crimog** *eb.* ll. *-au.* [*< crimp* â'r trf. *-og*]. Arf, 'crimog haearn' a oedd yn cael ei wisgo am ran isaf y goes (13g).

- crisiant** *eg.* [gair a luniwyd o fôn *grisial* + (*i*)*ant*]. Rhywbeth tebyg i risial, iâ, tryloyw (13g).
- crys** *eg.* ll. –*au*. Fe geir hefyd y ffurf fachigol *crysan* mewn rhai testunau. [*Kreis* mewn H.Gern. Cf. â *cris* sef yr enw H.Wydd. am ‘wregys’]. Gwregys a wisgid am y canol i helpu i gario rhywbeth trwm; dilledyn allanol; dilledyn isaf a wisgid gyda phais neu ddilledyn o liain neu wlanen (13g).
- cuert** *eg.* [bnth. o’r S. *covert* neu’r Ffr. *couvert* ‘cysgod’]. Gorchudd, tebyg i ‘cwfert’ a ‘cwfr’ (14g).
- curan** *eg.* ll. –*au*. Amrywiadau eraill oedd *cuaran* a *cwrán*. [bnth. o’r Wydd. C. *cuardán*, ond mae ei ystyr yn anhysbys]. Esgid ysgafn o groen heb ei gyweirio (13g).
- curas** *eg.* b. ll. –*au*. [bnth. o’r Ffr. *cuirasse*, a’r S. *cuirass* (sy’n fnth. o’r Ffr. C. *cuirasse*, < Llad. *coriācea vestis* ‘garment of leather’ < Llad. *corium* ‘leather’)]. Arfwisg yn amddiffyn y fynwes a’r cefn o ledr yn wreiddiol, yna haearn gloyw; trosiad am amddiffynfa (14g).
- cwfl** *eg.* ll. *cyflau*. Hefyd fe welir *cwfl*, [bnth. o’r S. C. *kuvele* ‘cowl’, H. S. *cūle* sy’n fnth. o’r Llad. *cuculla* ‘monk’s cowl’, ond cf. â’r Wydd. *cubal* ‘a frock, religious habit’]. Penwisg; mantell â phenwisg yn

cysgodi'r wyneb; gwisg mynach (14g).

- cwff** *eg. ll. cyffiau.* [bnth. S. *cuff*]. Addurn ar waelod llawer, band gwahanedig o liain a wisgir ar yr arddwrn (15g).
- cwlen** *eb. ll. -ni, -nau.* [bnth. S. *cowl + en*]. het neu benwisg i ddynion (16g).
- cwmplid** *a. hefyd fel eg. [< S. 'complete'].* Cyflawn, twt: fel ansoddair i ddisgrifio arfwisg neu orchudd o arfau (canol y 15g).
- cwmsallt** *eg. ll. -au.* [ni cheir tarddiad yn GPC, ond cf. â H. Ffr. *corselet*, H. Ffr. *c(a)nsil*, H. Ffr. *cains, chamse*, a'r Llad. *consolida*. I gyd yn amrywiadau ar fantell neu bais. Tybed a yw'n tarddu felly o'r un man â *camse*?]. Mantell laes dros arfwisg neu fantell ac arni arwyddion herodrol (13g).
- cwrlid** *eg. [bnth. S. C. *coverlit*].* Huling gwely, o bosibl yn orchudd addurnedig â gwaith brodwaith arno; clogyn (14g).
- .
- cwrpri** *eg. ll. cwrpiau.* [bnth. Ffr. C. *couir bouilli*]. Lledr wedi i ferwi a'i fowldio'n wisgoedd; clogyn i'w wisgo allan (14g).
- cwrsi** *eg. ll. cwrsiau.* [bnth. o'r S. C. *curchef* 'kerchief' o'r H. Ffr. *couvrechef*]. Gorchudd am y pen a wisgid gan wraig dlawd neu wraig

wrth ei gwaith, cap bob dydd (canol y 15g).

cyffaith *eg. ll. cyffeithiau, -ion.* [bnth. Llad. *confectio*]. Cymysgedd o hylif a ddefnyddiwyd gan farcer at gyweirio lledr (14g).

cylchwy *eg. ll. -on, neu -awr.* [< cylch + ? trf. -wy, fel yn *nefwy*]. Tarian gron; gwregys; gwisg (12g-13g).

D

damasg *eg. a.* [bnth. o'r S. *damask* o'r enw lle *Damascus* < Eingl-Ffr., *Damasc* = Eid. *Damasco*, a'r Llad. *Damascus*, enw gwreiddiol y ddinas]. Defnydd (sidan) patrymog neu liain main a phatrwm gloyw ynddo. Fe'i cysylltir â'r lliw pinc (fel rhosyn damasg), gwridog (dechrau'r 15g).

dihaeddwan *eg. a* hefyd fel *a*. Gwlân wedi ei blicio neu ei gardio (14g). Fel enw am y weithred honno: *dylofi*.

diwyg *eg.b. ll. -iau.* Ymddangosiad, ffasiwn, gwisg, gwedd (14g).

dringlyn *eg. ll. -iau, hefyd dringl.* [bnth. S. *tringle*, 'rhywbeth yn crogi wrth beth arall']. Tlws, cadwen, pendil (16g).

- du o lir** *a. ll., -on.* Brethyn du a ddaeth o'r dref Lyre neu Liere ym Mrabant (gw. *blac-o-lir*, uchod).
- dwbled** *eb. ll. -au, -i.* [bnth. S. *doublet* sy'n fnth. o'r H. Ffr. *doublet* < *double* â'r trf. *et.*]. Dilledyn sy'n ffitio'n dynn am ran uchaf y corff ac a wisgid gynt â llewys neu'n ddilewys, siercyn, crysbais; math o wasgod ledr a wisgid gynt dan yr arfwisg (14g).
- dyrnfol** *eg. ll. -au.* [< *dwrn* + *bol*, h.y. cod neu fag i'r dwrn yn llythr.]. Maneg o ledr, neu ddur ar gyfer ymladd neu waith awyr agored (*c.* 1250).
- E**
- eddi** *e. tf* ac *e. lluosog.* Ymylwaith neu odre addurnedig o edafedd neu daselau; top neu bennau edafedd a adewir ar y gwŷdd wedi torri ymaith y we (13g).
- ehoeg** *eg. hefyd fel ans. Ans. cynnar* am 'borffor', yw *ehoeg*, sef lliw blodau'r grug (13g).
- eirionyn** *eg. ll. -nau.* Ymyl darn o frethyn neu ymyl gwisg yw *eirionyn*. Tebyg i *eddi*, uchod (12g).

- esgid** *eb.* ll. *-iau* ll. dwbl *esgideuau*. [Crn. *eskit, eskys*]. Gwisg o ledr, fel rheol, am y droed, sydd fel arfer yn cael ei chau â charrai (13g).
- eurdorch** *eb.* ll. *eurdyrch, -dorchau, -dorchoedd* ac weithiau fel ans. Torch neu goler aur a wisgid gynt fel arwydd o urddas gan ryfelwyr (13g).
- eurgrwydr** *a.* a hefyd fel *eb.g.* [*eur + grwydr*]. Rhywbeth wedi ei addurno ag aur, e.e. tarian neu fwel (13g).
- eurllin** *eg.* ac fel *a.* Edau aur, o bosibl yn gyfeiriad cryno at waith brodwaith neu waith nodwydd ar ddefnydd; lliain neu frethyn euraid (13g).
- eurwr** *eg.* ll *-wyr*. Gwaith euro, gof aur (14g).
- eurysgwyd** [*< aur + ysgwyd* ‘tarian’]. Un o’r termau mwyaf cyffredin am darian. Ffordd gryno o nodi bod yr arwr yn cario tarian aur (13g).

FF

- ffaling** *eb.* ll. *-au*. [bnth. o’r Wydd. C. *fallaing* ‘clog’ neu ‘fantell’ < Llad. C. *phalinga* ‘clogyn garw’]. Yr oedd y ffaling yn fantell nodweddiadol draddodiadol Wyddelig. Fe geir hefyd y *ffaling band* sef math o goler neu rwymyn a wisgid am y gwddf (14g).

- fflaits** *eg.* [bnth. S. *fledge* ‘the designation of some textile material’]. Math o ddeunydd neu decstil (16g).
- fflisgiad** *eg.* Gwisg, gwisgiad (14g).
- ffloc** *eg.* [bnth. S. *flock*]. Y gwastraff sydd ar ôl o’r gwlan, cudyn o wlan (14g).
- ffoll** *eg.* neu *a.* [bnth. Llad. *follis*]. Cwdyn bychan neu bwrs. Hefyd yn ffigurol am ffwl neu hurryn (14g).
- ffollach** *eg.* *b.* ll. *-au, -od, ffellych*. Esgid o bren; esgid uchel; esgid bigfain hefyd o bosibl (13g-14g).
- ffris** *eg.* ll. *-iau*. [bnth. o’r S. *fryse, frees* ‘frieze’ < o’r Ffr. *frise*]. Brethyn tewban cyrliog, brethyn blewog. Yn ddiweddarach y defnyddiwyd yr ans. S. *frizzy* i ddisgrifio gwallt (15g).
- ffrog** *eb.* ll. *-iau*. [< S. *frock*]. Yn gyntaf fel gwisg fenywaidd yn 1547, ‘smock’, ‘frock’ (16g).
- ffunen** *eb.* ll. *-nau, -ni*. [< *ffun + en*]. Rhwymyn am y gwddf neu am y pen; cadach; hances poced (13g).

ffustion *eg.* [bnth. S. Diw Cyn. *fustion*]. Math o ddeunydd cryf garw a wnaed o gotwm a llin; gwisg ar gyfer gwaith, o ddeunydd tebyg i ‘corduroy’ (15g).

G

gardas *eb.g.* ll. *-au, -on*. [bnth. o’r S. C. *garderes* ‘garters’ sy’n fnth. o’r H. Ffr. (gogledd) *gartier* < *garet* ‘bend of the knee’]. Amrywiad arall yw *gardys* sef ‘a garter’ [< *gar*, ‘shank’, neu ran isaf y clun]. Rhwymyn i ddal hosan i fyny am y goes, coesrwym. Dywed OED mai ‘the Garter’ yn yr Oesoedd Canol ydoedd ‘the badge of the highest order of English knighthood. Hence, membership of this order; the order itself’. Cafodd ei gyflwyno’n gyntaf gan Edward III *c.* 1344.

gem *eg.b.* [bnth. o’r Llad. *gemma* ‘precious stone’]. Yn yr 16g cafwyd yr unig lapidari Cymraeg sydd wedi goroesi. Ynddo ceir rhestr o ddwy ar bymtheg ar hugain o gerrig gwerthfawr â rhinweddau arbennig. Gwelir ei ddylanwad ar farddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr, wrth iddynt gymharu eu noddwyr â gemau o bob math (10g).

glai *eg.b.* ll. *gleifiau*. [bnth. o’r S. C. *glaive* neu’r H. Ff. *glai*]. Math o wayffon, picell neu gleddyf (13g).

godre Gwaelod defnydd neu ddilledyn; addurn ar waelod gwisg (13g).

- gol** *eg a hefyd fel a.* [cf. â Llyd. D. *golo* ‘gorchudd’ a’r Wyddeleg *folach* ‘cuddfa’]. Amrywiadau eraill ar y gair yn Gymraeg yw *golg* a *gwolo*. Yn golygu amrediad o ystyron o orchudd neu guddfan, i fedd a chladdediogaeth fel arfer.
- godd-dorch** *eg.b. ll. –au, -dyrch, a hefyd gorthorch* [*< gordd / gwrdd a thorch*]. Torch fawr a wisgid am y gwddf gan y ddau ryw.
- gortho** *eg.b. Amrywiad: gwortho.* [*gor + to, cf. Hen. Wydd. fortche* ‘gorchudd’]. Gorchudd, llen o bosibl ar gyfer y pen, fel penwisg (13g).
- gorwisg** *eg. ll. -oedd.* [*gor + gwisg*]. Gorchudd, clogyn i’w wisgo tros ddillad (14g).
- godoew** *eb. ll. –on.* Hefyd yr amrywiad *gotoyw*. [*< god* (sef *goth* mewn H.W. ‘dart’, ‘gwayffon’) a *gwoew*, ffurf H. Gym. ar *gwayw*]. Gair cynnar am ‘ysbardunau’. Y mae Llywarch Hen yn ymfalchïo fod un o’i feibion yn gwisgo *godoew aur* (12g-13g).
- gowls** *eg. [bnth. o’r S. C. goules, geules, gewles].* Term herodrol ydyw am y lliw coch, yng ngwaith y beirdd (15g).
- gown** *eg.b. ll. -(i)au.* Gwisg, S. ‘gown’ (14g).

- gowni** *eg.* [*go* + *gwni*]. Gwniad, pwyth, braswniad (14g).
- gra** *eg.* [bnth. o'r S.C. *gra* 'grey' fel e. yn golygu 'grey fur']. Ffwr a ddefnyddir i addurno gwisgoedd; ffwr ysgyfarnog y gogledd (13g).
- grae** *eg.* a hefyd fel *a*. Dillad neu ddefnydd llwyd. Yn perthyn yn agos i'r 'gra' uchod. 'Grae amis' yn cael ei ddefnyddio am wisgoedd yr urddau crefyddol (14g).
- gwaeg** *eg.* *b.* ll. *gwaegau*. Hefyd yr amrywiad *gwäeg*. [< elf. anh. yw *gwa*, â'r trf. *eg*]. Bwcl neu glasp a gysylltir ag esgidiau yn bennaf. Crewyd y berfenw *gwaegaf*/*gwaegu* o'r e. sy'n golygu cau â *gwaeg* neu gau â bwcl (13g).
- gwäell** *eb.g.* lluosog *gwëyll*. [< elf. anh. yw *gwa* (gw. uchod)]. Tafod bwcl o bosibl; bwcl sy'n cau â phin (13g).
- gwarthafi** *eb.* ll. *gwarthaflau*, *gwartholion*. [< ? *gwrth-*, *gworth-* + *gafl* (yn llythr. 'yn erbyn neu'n cynnal yr afl') neu *gwar-* + *tafl*; am y ffurfiau gwelir ynddynt y datblygiad *af* > *aw* > *o*]. Pâr o ddolennau neu gylchoedd metel sy'n hongian wrth strapiau o boptu i gyfrwy er cynnal traed marchog, S. 'stirrups' (13g).

- gwasgawd** *eg. ll. –(i)au, -ion, -i.* [bnth o’r S. *waistcoat* ond er hynny cf. â’r H. Lyd *guascotou*]. Yr ystyr gynharaf oedd ‘cysgod’ (13g), ac ni ddaeth yr ystyr ‘gwasgod’ sef gwisg a wisgir dros ddilledyn arall tan y 18g.
- gwefr** ‘Ambr’ [*< Clt. urbra* sy’n digwydd yn yr e.prs. *Vebro, Vebrumaros*, a hefyd yr e.prs. *Gwefrawr, Gwefrig* yn y *Gododdin*]. Sylwedd gloyw, melynllwyd a ddefnyddid yn helaeth gynt i wneud gleiniau a thlysau i addurno’r corff. Fe’i defnyddir yn aml i ddisgrifio lliw gwallt hefyd (12g).
- gwenwisg** *eb. ll. –oedd, -au.* [*< gwen* a *gwisg*]. *Gwisg wen* offeiriad o bosibl, neu ddilledyn llaes o liain gwyn a wisgid gan glerigwyr (14g-15g).
- gwerthyd** *eb. ll. -au, -oedd, -ydd, -on.* [H. Grn. *gurhthit*]. Offeryn a ddefnyddiwyd i nyddu â llaw.
- gwimple** *eb. ll -au.* [*< S. ‘wimple’*]. Penwisg lliain i ferched, yn aml gan leianod (17g).
- gwintas** *eb.ll. ll. –au.* [bnth. o air S. anh. ei ystyr yn ôl GPC. Cysylltiad o bosibl â’r ferf S. ‘to wind’ sef lapio o amgylch rhywbeth (h.y. y droed)]. Esgid gynnar a oedd wedi ei chreu o un darn o ledr; esgidiau uchel yn cyrraedd hyd y pen-glin neu groth y goes (13g).

- gŵn** *eg.* [bnth. S. C. *goun(e)*, ‘gown’]. Gall fod yn air am fantell, gwisg hir neu fyr, yn amrywio trwy’r oesoedd canol (14g).
- gwregys** *eg.* ll. *-au*. [< *gwe* + *crys*]. Rhwymyn o ledr neu frethyn a wisgir gan amlaf am ganol y corff i ddal dilledyn yn ei le neu i gynnal arfau, neu fel addurn yn unig (13g). Gall *gwregys gwast* fod yn gyfeiriad at eitem gyffelyb i’r corset.
- gwrmdde** *a.* a hefyd fel *eg.* [< *gwrwm*, *gwrwm* + *dde*, *-de*]. Yn cael ei ddefnyddio am ddillad galar; yn gwisgo dillad tywyll, e.e. glas tywyll, llwyd tywyll, neu ddu; dulas (13g).
- gwrmseirch** *e.ll.* Hefyd yr amrywiadau ‘*gwrwmseirch*’, ‘*gwrymseirch*’. [< *gwrwm*, *gwrwm* + *seirch*]. Harnais neu arfwisg o liw dulas (13g).
- gwyrddonig** [cf. Llad. (? bnth. o’r Gal.) *gurdonicus* ‘anghoeth, cwrs, gwladaidd, taeogaidd, llymrig’ a’r ff. *gurtonicum* = H. Lyd. *doodl* ‘anhuawdl’]. Amrywiadau eraill yw *gwrddonig*, a *gwerddonig*. Cadwyd y ff. olaf drwy gamgysylltu’r gair ag Iwerddon oherwydd bod mentyll a chlogau yn dod o’r wlad honno, cf. *ffaling*. Rhywbeth garw a chedennog, bras o bosibl (14g).

H

- habrsiwn** *eg. ll. habrsiynau, habergeon.* [< S.C *haubergeon*]. Siaced ddur ddilewys, am y gwddf a'r frest yn bennaf; llurig (14g).
- helm** *eb. ll. -au, -ain.* [bnth o'r S. C. *helm* 'helmet']. Penwisg ddur, cap diogelu milwr (13g).
- herrwm** *eg. hefyd herwm.* Graen neu sglein ar ledr (16g).
- heulrhod** [*< o haul a rhod*]. Het neu fonet haul (14g).
- honffest** *eb. [? bnth. o'r S. C. handfest, hondfast; ni chofnodir hwn fel e. ond digwydd fel a. yn golygu 'betrothed; manacled by the hand'; â'r ail elf. cf. (pen)ffest(r)].* Mantell, clog, hugan (13g); pais, crys isaf (16g).
- hosan** *eb. ll -au, ll.dwbl hosaneuau.* [bnth. o un o gyflyrau traws. H. S. *hosa*, H.Gern. *hos*]. Dilledyn tynn caeëdig a wisgir am y troed a'r goes (13g).
- hug** [bnth. o'r Ff. *huque* neu S. C. *heuk(e), huk(e)* 'an outer garment, cloak']. Dilledyn llac oedd yr hug, yn ogystal â *hugan* yn wreiddiol (14g).
- huling** *eg.b. ll. -au, -od.* Hefyd *hilyn, hiling, hulyn.* [bnth. a cfdds. S. C. *hi(l)ing, huling*, 'roof, garment, covering']. Gorchudd ar gyfer gwely

weithiau, mantell (14g).

hws *eg.* [bnth. S. *house* ‘a covering; esp, one attached to a horse’s saddle so as to cover the back and flanks of a horse’]. Mantell; dilledyn, o frethyn gan amlaf; gorchudd i guddio rhywbeth, e.e. yr wyneb (15g).

hychwaew *eb.* [< *hwch* a *gwayw*. *Hochwuyw* mewn H. Gern]. Gwayw hela baedd neu ffon hela. Cymar i’r corn hela (13g).

L

las *eb.* ll *-(i)au*, *lasys*. [bnth. S. *lace*]. Lasyn i addurno neu i gau corset, esgid, addurn cyffredinol ar wisg (16g-17g).

latwn *eg.* [< S. *latten*, H. Ffr. *latun*]. Lliw tebyg i bres, yn gymysedd o liw melyn ac aur; rhywbeth o ddeunydd pres (14g).

lawnt *eg.* [< S. *laund(e)*]. Lliain main, gwyn o bosibl, sy’n cael ei ddefnyddio i wneud penwisg merch gan amlaf. Daw yn wreiddiol o’r enw lle Laon, Ffrainc (15g).

lifrai *eg.b.* ll *liferiau*, *-oedd*, ac *ell*. [bnth. S. C. *liveri* ‘livery’]. Gwisg neu wisgoedd o’r un fath i gyd (14g).

- lôn** *eg.* [*< S. lawn*]. Lliain main, cain, tebyg i gamrig (15g).
- LL**
- llarp** *eg.*[? *llaprau* drwy drawsosod *pr.* ? ond cf. *S. taf. lerrup, larrup* ‘rent tear’; (pl.) rags, tatters; scrap of meat’]. Cerpyn. Darn o ddefnydd wedi ei dorri; defnydd tlodaidd a thylllog, carpiog (15g-16g).
- llasar** *eg.* [bnth. o ryw ff. sy’n tarddu yn y pen draw o’r Pers. *lāzward* ‘lapis lazuli, lliw glas’; anodd gwybod beth oedd ffynhonnell uniongyrchol y bnth. i’r Gym; cf. Arabeg (*al-*)*lazward*, Llad. *C. lazur, lazurius, lazulum*, Ffr. *azur, S. azure*; ond nid amhosibl bnth. o’r H. Wydd. *lasar* ‘fflam, tân’, gyda’r ystyron ‘tanbaid, disglair’, gloyw’]. Y lliw glas, a hefyd fel sylwedd i addurno tarianau (13g).
- llathraid** *a.* [*llathr* ‘disglair’ + *aid*]. Rhywbeth disglair, llachar, a sglein arno (13g).
- llawdr** *eg.b.* [Cf. â’r H.Gern., *loder*, a’r Cern.D. *lodr* sef ‘hosan’]. Trowsus, clos neu wisg am y goes, ‘breeches’ (13g).
- llawes** *eb.* ll. *llewys*. [*< llaw* ac elf. *gwes* (cf. *cywes*); ? cf. Gwydd.C. *lámos*]. Dilledyn neu ran o ddilledyn sy’n gorchuddio’r fraich (13g).

- llawgwd** *eg. ll -gydau. [llaw + cwd]. Bag bychan, pwrws; poced (13g).*
- llen** *eb. weithiau'n eg. [len mewn H.Gern. a lednow mewn Cern.D. sef 'siôl']. Cf. â'r Llyd.D. lenn sy'n golygu 'cynfas gwely'. Term cynnar am unrhyw fath o wisg, mantell neu siôl. yw llen ac fe'i ceir yn gyntaf yn yr Hengerdd. Y mae'r gair Cymraeg ag amrediad eang o ystyron am 'ddefnydd di-siâp', yn cynnwys llenni, gwrthban gwely, a lliain bwrdd (neu 'wall hanging' efallai), 9g.*
- llebanbais** *eb. Mantell wledig, neu glogyn a gysylltir â'r werin (16g).*
- lliain** *Defnydd wedi ei weithio o lin.*
- llogell** *eb.g. [bnth. Llad. locellus 'cist fechan']. Un o'r ystyron yn GPC yw rhywbeth bach, boc, poced o bosibl (9g).*
- llopan** *Cf. â'r Wydd. D. lópa, lopin, 'a rag, a stocking without the vamp, worn without the shoe'. Yr hyn a alwn yn bacsiau. Esgid amrwd yn ôl GPC (13g).*
- llogwrn** *eg. ll. llogyrnau. [llost + asgwrn]. Cynffon gwisg sy'n llusgo (13g).*
- lluiddwisg** *eb. Dillad i'w gwisgo ar gyfer teithio (13g).*

- llurig** *eb.g. ll. -au, -ion, -awr. [bnth. o'r Llad. *lōrica*; *lúirech* mewn H.Wydd.]. Crys mael neu bais ddur neu ledr (12g-13g).*
- lledr** *eg. [cymh. Llyd. *lezzr*, a *ler* mewn Llyd.D.]. Croen anifail wedi ei drin.*
- M**
- maneg** *eb. ll. *menig* (*menyg*). [bnth. o'r Llad. *menica*; *maneg* mewn Cern. a Llyd. Diddorol yw'r gair tebyg iawn *mu(i)nchille* sef 'llawes' mewn Gwydd.C]. (Cafwyd y S. *mitten*, o'r Llad. C *mitta* o bosibl trwy'r H.Ff. *mite*). Gorchudd llaw, fel rheol â gwain ar gyfer pob bys (13g).*
- mantell** *eb.g. ll. *mentyll*. [bnth. o'r Lladin *mantellum*]. Gwisg allanol, ddilewys ond gall fod yn unrhyw ddilledyn a wisgir am yr ysgwyddau (13g).*
- medlai** *eb.? g. a hefyd fel grym ansoddeiriol. [bnth. S. C. *medley(i)*, 'cloth woven with variegeted wools'].Brethyn o wahanol liwiau, wedi ei weu o wahanol wllân a lliwiau (14g).*
- melan** *eg.b. a hefyd fel ans. [bnth. o'r S.C. *melan*; enw dinas Milano yn yr Eidal]. Arf dur, neu darian (14g).*
- ment** *Amrywiad ar 'mantell' (15g).*

- mererid** [bnth. o'r Llad. *margarīta*]. Math o faen gwerthfawr a ddaeth yn enw merch yng Nghymru yn y 12g a chyn hynny yn Ewrop (13g).
- meitr** *eg.* ll. *-au*. [bnth. S. C. *mitre*]. Penwisg esgob (15g).
- modrwy** *eb.* ll. *-au, -on*. [*< mawd* amrywiad ar 'bawd' a *rhwy*]. Tlws crwn i'w wisgo am y bys; cylch bychan o fetel fel addurn. Cylch bach o fetel fel addurn neu fel arwydd o rywbeth arbennig (13g).
- moled** [bnth. o'r S. C. neu H. Ffr. *volet*]. Cadach neu ddilledyn i'w roddi am y pen, y gwddf neu'r ysgwyddau; penllian merch (15g).
- mwrrai** *a.* a hefyd fel *eg.* [bnth. o'r S. C. *murrei*, 'murrey']. Lliw tywyll cochbiws, a defnydd o'r lliw hwn; cochddu, lliw aeron y morwydd, coch tywyll (*c.* 1400).
- mwtlai** Hefyd, *motlai*. *a.* ll. *mwtleion, motleion*, a hefyd fel *eg. motley*. [bnth. S. C. *motle(i)*]. Gwisg amryliw, neu wisg â dau liw, fel gwisg ffŵl y llys (14g).
- mynci** Coler ceffyl, coler yn gyffredinol hefyd. Cf. H. Wydd. *muince* (coler fetel neu goler addurnedig am y gwddf). Gellir gweld cysylltiad rhwng *mwnci* a'r gair *mwnwcl*, 'gwddf' (10g).

mynfyr [*< S. C. neu Ffr. Lloegr miniver*]. Ffwr, yn aml ar odrau gwisg (14g).

mynwair [*mŵn + gwair*]. Coler, coler ceffyl (14g).

mynyglwisg *eb.* Eitem o ddiledyn a wisgir o amgylch y gwddf fel crafat; mwclis, cadwyn am yr wddf (1604-7).

O

offerengrys *eg. ll. -au.* [*< o offeren < Llad. offerenda a crys*]. Gwyn yw'r lliw traddodiadol a gysylltir â gwisg yr Offeren (16g).

orffrais *eb.g.* [bnth. o'r H. Ffr. *orfreis*]. Brodwaith ar ddilledyn, yn arbennig gwisg offeiriad (14g).

omner *eg. Gw. amner.*

ôr *e?g.* [bnth o'r S. neu'r Ffr. *or < Llad. aurum gold*]. Y lliw aur neu felyn yn enw. mewn herodraeth (16g).

owmal *eg. a hefyd gyda grym ansoddeiriol.* [bnth o'r S. C. *aumail 'enamel'*]. Sylwedd anhryloyw neu led dryloyw tebyg i wydr a doddir drwy wres i ffurfio haenen dros arwynebau metelaidd (14g).

P

- pabell** *eb.g. ll. pebyll. [< Llad. papilis]. Mantell neu glog yw un ystyr (14g).*
- paeled** *eb. ll. –au. hefyd ‘paled’. [bnth o’r H. Ff. palet o bosibl trwy’r S. C.]. Arfwisg i’r pen, helm (14g).*
- pais** *eb. ll. peis(i)au. [bnth. o’r Llad. pexa ‘gwlanog, cedenog’]. Dilledyn isaf ysgafn ar ffurf sgerit; ffrog, tiwnig neu gôt i fenyw; tiwnig, siaced, côt neu ddwbled i ddyn; gwisg clerigwr neu fynach; arfwisg yn amddiffyn rhan uchaf y corff wedi ei chryfhau â dolennau neu blatiau metel (13g).*
- pali** *eg. ll. paliau. [bnth. o’r H. Ffr. palie ‘deunydd â brodwaith’; cf. hefyd H. Ff. palis a pali]. ‘Sidan a brodwaith arno’ yn ôl GPC (2674); math o ddefnydd sidan main meddal, neu liain main (c. 1300).*
- pall** *eg.b. [bnth. o’r Llad. palla ‘mantell’, ‘llen’, o bosibl drwy’r H. Ffr. palle]. Nodir hefyd yn GPC (2676) y gall pall olygu gwisg o wlân a roddir i archesgob gan y Pab, sef y ‘pallium’ (c. 1300).*
- pân** *eg. [bnth. o’r H. Ffr. pa(n)e, o bosibl drwy’r S. C.]. Ffwr, ermin, croen anifail (14g).*
- pan** *a. ac eg. [bôn y f. pannaf: pannu]. Defnydd wedi ei bannu megis brethyn (1547).*

- pafais** *eg.b.* ll. *parfeisiau*, hefyd *parfais*. [bnth. o'r S. C. *paueys*]. Tarian amgron fawr a amddiffynnai'r holl gorff rhag saethau; bwclod, tarian (15g).
- pendant** *eb.g.* ll. -(i)au, a hefyd fel *a*. [bnth. S. C. *pendant*, *pendaunt*]. Fel yr ystyr S. 'pendant', cadwyn; tlws; broets, bwcl i gau gwregys (15g – 16g).
- penddel** *e.* [*< pen + elf. anh.*]. Addurn ar gyfer y pen neu goronbleth, megis coron o ddail (13g).
- penffestin** *eg.b.* Hefyd yr amrywiad 'penffestyn,' ll. *-ffestinion*, *-ffestynau*. [*< pen + elfen anhysbys*]. Gair arall am helm mae'n debyg, neu gap mael a wisgid o dan yr helm; penwisg o ddu neu ledr (13g).
- penguwch** *eb.g.* ll. *penguwchau*, *penguchiau*, *penguchion*. [*< pen a cuwch*. cf. H.Gern. *pengugh*]. Penwisg neu orchudd pen – i ferch fel arfer (13g).
- penlliain** *eb.* [bnth. *pen + lliain*]. Penwisg merch (13g).
- penial** *eg.* [*pen + ?gâl*; cf. Gwydd.C. *cenngail* '?trawiad â'r pen; terfysg']]. Mae GPC yn aniscr o'r ystyr ond fe awgrymir 'gwasgiad, ymwasg, tyrfa,' neu 'rhywbeth a wisgir am y pen mewn brwydr' (c. 1300).

- pennawr** Hefyd *pennor*. *eg.* ll. *penoriau*. Helm neu benwisg (*c.* 1632).
- penrhe** *eg. b.* ll *-od*. Henfyd *penre*. [*pen* + *rhe*]. Cf. Gwydd. C. *cennrach* ‘ysnoden, penffestr’. Penwisg, cap i’r pen (1632).
- penrhwym** *eg. b.* ll *-au*. [*pen* + *rhwyn*]. Rhwymyn am y pen, tebyg i’r twrban. Hefyd gall fod yn rhwybeth i gau, fel bwcl neu glasp (14g).
- pilyn** Hefyd *pilin*. *eg.* ll. *pilynnau*, *-od*, *pilins*. [< *pil* â’r trf. *-yn*. bnth. o’r S. *peeling*. cf. S. C. *pil(e)* ‘husk, or hull of grain; peel or rind of a fruit or vegetable; skin’]. Gorchudd; mantell neu glogyn (14g).
- pilis / pilys** *eg. b.* ll. *-au*. [bnth. o’r H. S. *pylece* neu’r H. Ffr. *pelice*]. Gwisg o groen blewog, mantell (ac arni ffwr), gŵn, gwisg (13g).
- piner** *eg.* Gwisg, mantell (14g).
- placard** *eg.* ll. *-iau*. [bnth. S. C. *placard*]. Yn ffigurol am ddarn o arfwisg (15g-16g).
- plu** *e.ll.* Amrywiad ar blu yw *pluf*, *pluawr*. [bnth. o’r Lladin *plūma*]. Daeth yn ffasiwn i addurno gwisgoedd â phlu o’r 13g ymlaen a’r plu hynny yn amrywio o blu’r paun i blu’r fflamingo (*c.* 1300).

- porffor** *a.* a hefyd fel *eg.* [bnth. Llad. *purpura*; cf. H. Wydd. *corcur*, Gwydd.C. *corcair*]. Ei ystyr gyntaf yn golygu amrywiad o liwiau, glasgoch, cochlas, piws, a fioled, rhuddgoch, ac ysgarlad. Wrth ddewis gwahanol gyfuniadau o lifiadau o'r *molluscs* hwn a chan amrywio'u hymddangosiad â'r haul, fe alluogid llifwyr i gael amrediad eang o liwiau – porffor golau a thywyll, fioled, cochddu, cochfrown, crimson, rhosgoch, glas a hyd yn oed wyrdd (12g-13g).
- powtner** *eg.* ll. -*au*. Hefyd *pownder*, *pewtner*, *pwtner*. [bnth. S. *poutener*, 'purse, bag']. Pwrs neu gwodyn bychan (15g-16g).
- purpur** *a.* a hefyd fel *eg.* [*< S. purple*]. Y lliw porffor, ysgarlad, cochbiws (16g).
